

# Nodi tystiolaeth i gefnogi camau gweithredu i leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd

Adolygiad cwmpasu a mapio systematig



# Nodi tystiolaeth i gefnogi camau gweithredu i leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd

## Awduron a chyfranwyr

Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl

Lisa Jones, Yr Athro Mark A. Bellis

## Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dr Rebecca Hill, yr Athro Karen Hughes a Sara Wood

## Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar iawn i **Dr Ciarán Humphreys** o Iechyd Cyhoeddus Cymru am adolygu'r adroddiad hwn. Hoffem ddiolch hefyd i **Chloe Booth**, Prifysgol John Moores Lerpwl am ei chyfraniadau gwerthfawr i'r adroddiad, gan gynnwys cymorth gyda chwilio llenyddiaeth, asesu ansawdd ac echdynnu data.

Cyflwynwyd fersiwn cynharach o'r gwaith hwn i gyfarfod Cyd-grŵp Gwyddonol a Chynghorol y **fenter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRI)** ar 31<sup>ain</sup> Ionawr 2023. Rydym yn ddiolchgar iawn am y sylwadau gan y mynychwyr yn y cyfarfod hwn.

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddileu anghydraddoldeb o bob math (Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021-2026) tra bod lleihau anghydraddoldebau iechyd yn elfen graidd o Gynllunio GIG Cymru, ac yn un sydd wedi dod yn bwysicach fyth oherwydd effeithiau pandemig COVID-19 (Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru 2021-2022).

# Cynnwys

Crynodeb gweithredol .....	3
1 Cyflwyniad .....	6
2 Dulliau .....	9
3 Crynodeb o'r adolygiadau sydd wedi'u cynnwys.....	13
4 Penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd.....	17
5 Penderfynyddion ymddygiadol iechyd .....	27
6 Trafodaeth.....	39
7 Cyfeiriadau.....	42
Atodiad 1. Astudiaethau wedi'u heithrio.....	53
Atodiad 2. Asesiad ansawdd AMSTAR 2 .....	59
Atodiad 3. Tablau echdynnu data cryno.....	64

## Tablau ffigurau

Ffigur 1. Siart Ilif PRISMA .....	16
-----------------------------------	----

## Tabl tablau

Tabl 1. Dadansoddiad o'r mathau o adolygiadau ar draws y categorïau penderfynyddion..	14
Tabl 2. Crynodeb o adolygiadau o ymyriadau, polisïau a rhaglenni: penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd .....	17
Tabl 3. Tabl tystiolaeth effeithiau: penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd.....	25
Tabl 4. Crynodeb o adolygiadau o ymyriadau, polisïau a rhaglenni: penderfynyddion ymddygiadol iechyd.....	27
Tabl 5. Tabl tystiolaeth effeithiau: penderfynyddion ymddygiadol iechyd .....	36
Tabl 6. Tablau data cryno ar gyfer adolygiadau ymbarél .....	64
Tabl 7. Tablau data cryno ar gyfer tystiolaeth lefel adolygiad: penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd .....	71
Tabl 8. Tablau data cryno ar gyfer tystiolaeth lefel adolygiad: penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd .....	83
Tabl 9. Tablau data cryno ar gyfer tystiolaeth lefel adolygiad: adolygiadau cwmpasu.....	103

# Crynodeb gweithredol

Beth sy'n hysbys o adolygiadau ymbarél sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb ac adolygiadau systematig ynghylch pa ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd sy'n dangos tystiolaeth o leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd?

Bu cynnydd sylweddol yn y ddau ddegawd ers sefydlu Comisiwn WHO ar Benderfynyddion Cymdeithasol Iechyd i adeiladu sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithredu ar degwch iechyd a nodi pwyntiau mynediad ar gyfer polisiau, rhaglenni ac ymyriadau. Mae gwahanol ddulliau polisi wedi'u cynnig i leihau anghydraddoldebau iechyd ond cydnabyddir y bydd camau gweithredu yn fwyaf effeithiol os cânt eu targedu at lefel y penderfynyddion strwythurol. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r mecanweithiau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol sy'n dylanwadu ar sefyllfa gymdeithasol gwahanol grwpiau ac unigolion o fewn cymdeithas yn seiliedig ar ffactorau megis cyfoeth, incwm, addysg, a galwedigaeth. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd rhwng gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol ('anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd'), sef un o'r heriau pwysicaf i iechyd y cyhoedd.

Mae llawer o adolygiadau ymbarél ac adolygiadau systematig ar gael sy'n archwilio effeithiau ymyriadau ar leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau yn y sylfaen dystiolaeth ar lefel adolygiad ynghylch yr hyn sy'n gweithio i leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd. Mater allweddol yw nad yw'r rhan fwyaf o ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd yn canolbwyntio ar y penderfynyddion strwythurol neu gyfryngol, ond ar benderfynyddion ymddygiad unigol.

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r dystiolaeth lefel adolygiad sydd ar gael i arwain camau gweithredu ar leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd. Ceisiwyd tystiolaeth ar gyfer ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd sy'n berthnasol i boblogaethau, grwpiau ac ardaloedd neu awdurdodaethau eraill a ddiffinnir yn ddaearyddol i archwilio a ydynt yn gwella canlyniadau iechyd pobl sy'n profi anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol yn ffafriol. Nodwyd 17 o adolygiadau ymbarél, 106 o adolygiadau systematig a 30 o fathau eraill o adolygiadau a oedd â ffocws tegwch ac a gyhoeddwyd ers 2000. Cafodd deuddeg adolygiad ymbarél a 54 adolygiad eu categorio fel rhai oedd yn archwilio penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd. Cafodd saith adolygiad ymbarél a 79 adolygiad eu categorio fel rhai a oedd yn archwilio penderfynyddion ymddygiadol iechyd.

**Pa dystiolaeth sydd am effeithiau gwahaniaethol ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd ar draws grwpiau economaidd-gymdeithasol?**

Nid oedd casgliadau clir ynghylch effaith wahaniaethol ymyriadau, polisiau, neu raglenni sy'n targedu penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd ar gael ar draws yr

adolygiadau ymbarél a gynhwyswyd. Daeth tri adolygiad ymbarél, a oedd yn cwmpasu ystod o ymyriadau, polisïau a rhaglenni iechyd y cyhoedd i'r casgliad yn gyffredinol bod y canlyniadau'n gymysg neu'n amhendant. Ar lefel yr adolygiad, roedd tystiolaeth ar gyfer effeithiau gwahaniaethol ar gael ar draws chwe maes ymyrraeth, rhaglen a pholisi, gan gynnwys mynediad ac ansawdd addysg, llygredd aer, seilwaith a threfniadaeth gweithleoedd. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd y dystiolaeth hon hefyd yn amhendant.

Ar gyfer penderfynyddion ymddygiadol iechyd, darparodd un adolygiad ymbarél grynodedb o ymyriadau ar lefel y boblogaeth a allai fod yn effeithiol o ran gwella anghydraddoldebau iechyd. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i seilio'n glir ar dystiolaeth am effeithiau gwahaniaethol a daethpwyd i gasgliadau am effeithiau o astudiaethau unigol. Ar lefel yr adolygiad, nodwyd tystiolaeth am effeithiau gwahaniaethol ar draws y meysydd cyflawni polisi allweddol. Canfuwyd bod cynnydd mewn prisiau/treth ar dybaco a bwydydd dwysedd ynni uchel a chymorthdaliadau ar ffrwythau a llysïau yn cael effeithiau tegwch cadarnhaol yn gyffredinol. Ar draws yr adolygiadau a gynhwyswyd, canfuwyd bod tystiolaeth o astudiaethau a archwiliodd polisïau di-fwg gwirfoddol, rhanbarthol a rhannol, a rheolaethau, gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar hysbysebu, hyrwyddo a marchnata a mynediad wedi'i phwysoli tuag at effaith negyddol ar degwch. Canfuwyd effeithiau tegwch cymysg neu anghyson ar gyfer ymgyrchoedd cyfryngau torfol ysmegu ac iechyd. Nodwyd canfyddiadau amhendant ar draws yr astudiaethau a archwiliodd ystod o ymyriadau a rhaglenni wedi'u grwpio dan ddarpariaeth gwasanaeth.

## Pa dystiolaeth sydd ar gael am effeithiau gwahaniaethol ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd a dargedwyd yn benodol at grwpiau difreintiedig neu a gynhaliwyd mewn ardaloedd dan anfantais?

Roedd tystiolaeth bod ymyriadau, rhaglenni a pholisïau dethol yn cael effaith gadarnhaol ar boblogaethau a dargedwyd. Cafodd ymyriadau llywio a chymorth gan gymheiriaid yn y gymuned a oedd â'r nod o gynnwys cleifion mewn gofal iechyd effeithiau cadarnhaol ymhlith poblogaethau a dargedwyd. Felly hefyd gwelliannau i gyflwr tai a dargedwyd at grwpiau incwm isel. Roedd tystiolaeth bellach ar lefel adolygiad i awgrymu y gall rhaglenni cymhorthdal bwyd gael effaith gadarnhaol ar deuluoedd difreintiedig. O dan y maes polisi cyfalaf cymdeithasol a dynol, cafodd dulliau wedi'u targedu gan gynnwys ymgysylltu â'r gymuned, addysg rianta a hybu bwydo ar y fron effeithiau cadarnhaol ymhlith grwpiau incwm isel. Ar draws y maes polisi diogelwch incwm a diogelu cymdeithasol, roedd diffyg tystiolaeth o'r effeithiau ar iechyd.

Roedd cymysgedd o ymyriadau cyffredinol a rhai a dargedwyd wedi'u cynnwys ar draws yr adolygiadau a oedd yn mynd i'r afael â phenderfynyddion ymddygiadol iechyd. Yn gyffredinol, roedd 16 adolygiad yn archwilio ymyriadau a dargedwyd yn unig ac roedd 12 adolygiad yn cynnwys ymyriadau cyffredinol a rhai a dargedwyd. Roedd enghreifftiau o ymyriadau a dargedwyd yn cynnwys ymyriadau ymddygiadol rhoi'r gorau i ysmegu, ymyriadau hybu iechyd ar gyfer pwysau, maeth a gweithgarwch corfforol ac atal anafiadau anfwriadol, ac ymyrraeth i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar wasanaeth neu'n mynychu, a chafodd y mwyafrif eu categorio o dan y maes polisi darparu gwasanaeth.

Roedd tystiolaeth lefel adolygiad i awgrymu y gallai ymyriadau a dargedwyd (neu wedi'u teilwra) ar gyfer colli pwysau yn y gymuned a rhaglenni colli pwysau wedi'u teilwra wedi'u cyflwyno gan ofal sylfaenol, ymyriadau newid ymddygiad a chymorth ymddygiadol i roi'r gorau i ysmegu gael effeithiau cadarnhaol.

## Yn gyffredinol, beth sy'n hysbys ynghylch pa ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd sy'n dangos tystiolaeth o leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd?

Mae'r llenyddiaeth a adolygwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn awgrymu bod meysydd ar draws penderfynyddion cymdeithasol ac ymddygiadol ehangach iechyd lle gall camau gweithredu gael effeithiau cadarnhaol ar degwch iechyd. Fodd bynnag, mae lleihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd yn gofyn am gynllunio a gweithredu cydweithredol a thraws-sector, ac os ydym yn canolbwyntio ar y darlun cyfan ac nid ar feysydd polisi unigol yn unig, yna mae diffyg casgliadau a chyfeiriadau clir ar gyfer gweithredu ar hyn o bryd. Mae dulliau ar gyfer "cyfosod tystiolaeth o bersbectif systemau" yn dal i gael eu datblygu ond yn y dyfodol, gallai dulliau o'r fath fod o gymorth gwell i gael y darlun llawn er mwyn blaenoriaethu camau gweithredu a gwella gwneud penderfyniadau.

# 1 Cyflwyniad

## Beth yw anghydraddoldebau iechyd?

Mae anghydraddoldebau iechyd yn wahaniaethau systematig annheg ac anghyfiawn yn iechyd pobl, a welir ar draws poblogaethau a rhwng gwahanol grwpiau cymdeithasol (1). Mae modd osgoi anghydraddoldebau iechyd ac yn y ddau ddegawd ers sefydlu Comisiwn WHO ar Benderfynyddion Cymdeithasol Iechyd, bu cynnydd sylweddol o ran adeiladu sylfaen dystiolaeth i weithredu dros degwch iechyd a nodi pwyntiau mynediad ar gyfer polisiâu, rhaglenni ac ymyriadau (2). Fodd bynnag, mae anghydraddoldebau iechyd yn parhau i fod yn her barhaus yn y Rhanbarth Ewropeaidd ac yn flaenoriaeth iechyd cyhoeddus fawr. Fel yr amlygwyd gan adroddiad y Comisiwn Pan-Ewropeaidd ar Iechyd a Datblygu Cynaliadwy, mae anghydraddoldebau iechyd wedi cael eu gwaethygu ymhellach gan bandemig COVID-19 (3) ac wedi ehangu'n amlwg (4). Yn 2020, cymeradwyodd Pwyllgor Rhanbarthol WHO ar gyfer Ewrop y Rhaglen Waith Ewropeaidd (EPW) newydd ar gyfer 2020–2025 (5), sy'n canolbwyntio ar gyflawni "camau unedig ar gyfer gwell iechyd yn Ewrop". Mae'r EPW yn rhoi pwyslais cryf ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd i sicrhau nad yw gwelliannau mewn iechyd yn gadael neb ar ôl.

## Anghydraddoldebau iechyd a'u hachosion

Mae 'penderfynyddion cymdeithasol iechyd' (SDH) yn disgrifio'r ffactorau cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol sy'n llywio'r amodau y mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw, yn gweithio ac yn heneiddio ynddynt. Mae'r rhain, yn eu tro, yn cael effaith ar iechyd a llesiant. Mae fframwaith Comisiwn Sefydliad Iechyd y Byd (6) yn nodi'r sail gysyniadol ar gyfer y penderfynyddion cymdeithasol ac yn gwahaniaethu'n bwysig rhwng dau gategori rhyng-gysylltiedig eang o benderfynyddion, sef 'penderfynyddion strwythurol' a 'penderfynyddion cymdeithasol iechyd'. Mae'r 'penderfynyddion strwythurol' (y cyfeirir atynt hefyd fel 'penderfynyddion cymdeithasol anghydraddoldebau iechyd') yn adlewyrchu'r mecanweithiau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol sy'n dylanwadu ar sefyllfa gymdeithasol (neu economaidd-gymdeithasol) gwahanol grwpiau ac unigolion o fewn cymdeithas yn seiliedig ar ffactorau megis cyfoeth, incwm, addysg, a galwedigaeth. Yna mae safle cymdeithasol unigolyn, yn ei dro, yn llywio ei fynediad a'i amlygiad i set o benderfynyddion cyfryngol sy'n cael effaith uniongyrchol ar iechyd a llesiant, ac sy'n arwain at ganlyniadau anghyfartal ymhlith grwpiau ac unigolion. Yn fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd, mae 'penderfynyddion cymdeithasol iechyd' yn cynnwys amgylchiadau materol (ee, argaeledd bwyd), amgylchiadau seicolegol (ee, argaeledd cefnogaeth gymdeithasol), ffactorau ymddygiadol (ee, y gallu i fod yn gorfforol actif), biolegol (ee, genetig) a ffactorau system iechyd. Mae cysyniadau cydlyniant cymdeithasol a chyfalaf cymdeithasol yn croestorri y penderfynyddion strwythurol a chyfryngol. Er bod gwahanol ddulliau polisi wedi'u cynnig i leihau anghydraddoldebau iechyd, cydnabyddir y bydd camau gweithredu yn fwyaf effeithiol os cânt eu targedu at lefel y penderfynyddion strwythurol.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd rhwng gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol ('anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd'), sef un o'r heriau pwysicaf i iechyd y cyhoedd (7, 8). Lle mae data ar gael, mae'n dangos bod pob gwlad Ewropeaidd yn profi graddiant economaidd-gymdeithasol mewn marwolaethau. Hynny yw, mae marwolaethau ym mhob gwlad yn uwch ymhlith pobl yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf o gymharu â phobl yn y canol, ac yn uwch ymhlith y canol o gymharu â'r grwpiau economaidd-gymdeithasol uchaf (9).

## Gweithredu polisi ar anghydraddoldebau iechyd

Er mwyn troi polisi yn weithredu, mae Solar ac Irwin (6) wedi nodi tri dull polisi eang o leihau anghydraddoldebau iechyd:

1. Rhaglenni a dargedwyd sy'n anelu at wella iechyd poblogaethau statws economaidd-gymdeithasol isel (SES) (*dull a dargedwyd/anfantais*);
2. Dulliau sy'n targedu'r bylchau iechyd yn uniongyrchol rhwng y rhai yn yr amgylchiadau cymdeithasol tlotaf a grwpiau mwy cefnog (*dull bylchau iechyd*); a
3. Rhaglenni sy'n ceisio mynd i'r afael â'r graddiant economaidd-gymdeithasol cyfan mewn iechyd trwy ganolbwyntio ar y cysylltiad rhwng sefyllfa economaidd-gymdeithasol ac iechyd ar draws y boblogaeth gyfan (*dull graddiant iechyd*).

Mae llawer o adolygiadau ymbarél ac adolygiadau systematig ar gael sy'n archwilio effeithiau ymyriadau ar leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau yn y sylfaen dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mater allweddol yw nad yw'r rhan fwyaf o ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd yn canolbwyntio ar y penderfynyddion strwythurol neu gyfryngol, ond ar benderfynyddion ymddygiad unigol. Mae'r rhan fwyaf o ymchwil ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd wedi'i wneud ar ymyriadau newid ymddygiad sy'n gweithredu ar lefel unigol neu ryngpersonol (10). Ymhellach, gall canolbwyntio ar effeithiau cyfartalog ymyriad guddio gwahaniaethau pwysig mewn effeithiau ymyriadau rhwng grwpiau (11). Mae adolygiadau systematig yn datgelu diffyg adrodd ar effeithiau gwahaniaethol ymyriadau ar draws grwpiau economaidd-gymdeithasol.

## Cwestiynau'r adolygiad

Nod y gwaith hwn yw darparu trosolwg o'r hyn sy'n hysbys o adolygiadau ymbarél sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb ac adolygiadau systematig ynghylch pa ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd sy'n dangos tystiolaeth o leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd.

Cwestiynau allweddol yr adolygiad oedd:

- Pa dystiolaeth sydd ar gael am effeithiau gwahaniaethol ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd ar draws grwpiau economaidd-gymdeithasol?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael am effeithiau gwahaniaethol ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd a dargedwyd yn benodol at grwpiau difreintiedig?



- Pa dystiolaeth sydd ar gael am effeithiau gwahaniaethol ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd a gynhaliwyd mewn ardaloedd ddifreintiedig?
- Yn gyffredinol, pa ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd sydd â thystiolaeth i gefnogi eu bod yn gwella'n ffafriol ganlyniadau iechyd poblogaethau SES isel?

## 2 Dulliau

### Chwiliadau

Chwiliwyd y cronfeydd data canlynol am dystiolaeth ar lefel adolygiad ymbarél a lefel adolygu:

- Cochrane Database of Systematic Reviews,
- Campbell Collaboration Library of Systematic Reviews (The Campbell Library),
- Medline (Ovid),
- PsycINFO (ProQuest),
- Cumulative Index of Nursing and Allied Health Literature (CINAHL; EBSCOHost),
- Social Sciences Citation Index (WoS),
- Database of Promoting Health Effectiveness Reviews (DoPHER; EPPI-Centre),
- Public Health Database (ProQuest)
- Health Systems Evidence (McMaster University/McMaster Health Forum).

Defnyddiwyd hidlwyr chwilio i nodi dystiolaeth lefel adolygu lle bo hynny'n ymarferol. Cynhaliwyd chwiliadau ychwanegol am lenyddiaeth lwyd gan ddefnyddio Google Scholar, gan ganolbwyntio ar y 200-300 o ganlyniadau cyntaf a nodwyd. Fe wnaethom hefyd chwilio'r rhestrau cyfeirio o adolygiadau ymbarél cymwys. Cynhaliwyd chwiliadau ym mis Chwefror 2022 ac maent wedi'u cyfyngu i dystiolaeth a gyhoeddwyd ers 2000. Ni roddwyd unrhyw gyfyngiadau iaith yn y chwiliadau, ond dim ond adolygiadau Saesneg a gynhwyswyd.

### Meini prawf cynnwys

Defnyddiwyd y meini prawf cynnwys canlynol i ddewis adolygiadau perthnasol.

#### Cyfranogwyr/poblogaeth

Plant ac oedolion o bob oed.

#### Ymyriad (au), amlygiad(au)

Roedd ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd sy'n berthnasol i boblogaethau, grwpiau ac ardaloedd neu awdurdodaethau eraill a ddiffinnir yn ddaearyddol, sy'n anelu at leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol yn gymwys. Mae tri dull bras o leihau anghydraddoldebau wedi'u nodi: rhaglenni a dargedwyd sy'n anelu at wella iechyd poblogaethau statws economaidd-gymdeithasol isel (SES); dulliau sy'n targedu'r bylchau iechyd yn uniongyrchol rhwng y rhai yn yr amgylchiadau cymdeithasol tlotaf a grwpiau mwy cefnog; a rhaglenni sy'n ceisio mynd i'r afael â'r graddiant economaidd-gymdeithasol cyfan mewn iechyd trwy ganolbwyntio ar y cysylltiad rhwng sefyllfa economaidd-gymdeithasol ac iechyd ar draws y boblogaeth gyfan. Roedd y meini prawf yn eang yn bwrpasol i nodi dystiolaeth yn ymwneud ag ystod eang o ymyriadau, rhaglenni a pholisïau.

## Cymharydd(wyr)/rheolaeth

Mae gan adolygiadau systematig ac adolygiadau ymbarél wahanol unedau o ddiddordeb (hy, astudiaethau sylfaenol yn erbyn adolygiadau systematig), fodd bynnag, ar gyfer y ddwy uned o ddiddordeb sylfaenol, roedd astudiaethau gyda grŵp rheoli a hebdo yn gymwys.

## Mathau o astudiaethau i'w cynnwys

Fe wnaethom gynnwys adolygiadau systematig, adolygiadau cwmpasu, mapiau tystiolaeth ac adolygiadau ymbarél am effeithiolrwydd ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd, a oedd yn nodi tegwch yn amlwg fel ffocws. Defnyddiwyd tair elfen allweddol meini prawf y Database of Abstracts of Reviews of Effects (DARE) i nodi adolygiadau systematig ac adolygiadau ymbarél: cwestiwn clir; dull tryloyw o chwilio, dethol a gwerthuso tystiolaeth (astudiaethau sylfaenol neu adolygiadau systematig); a chyfod y dystiolaeth.

## Cyd-destun

Cynhwyswyd ymchwil mewn gwledydd incwm uchel yn unig.

## Prif ganlyniad(au)

Y prif ganlyniad o ddiddordeb oedd effaith yr ymyriad, rhaglen neu bolisi iechyd y cyhoedd ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn perthynas â'u heffaith ar ymddygiadau ac arferion sy'n gysylltiedig ag iechyd, mesurau llesiant personol neu gymunedol a chanlyniadau'n ymwneud â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd (e.e. , canlyniadau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth; mynediad i fannau gwyrdd; ansawdd tai). Roedd angen i adolygiadau hefyd gynnwys astudiaethau a oedd yn adrodd am fesurau amrywiad economaidd-gymdeithasol mewn canlyniadau iechyd rhwng grwpiau neu boblogaethau. Roedd angen diffinio statws economaidd-gymdeithasol fel un sy'n cynnwys un neu fwy o'r mesurau canlynol: incwm, lles, asedau/adnoddau ar lefel unigolyn neu gartref, addysg, neu alwedigaeth. Roedd mesurau amddifadedd ar lefel ardal hefyd yn berthnasol.

## Echdynnu data

Mewnforiwyd canlyniadau'r chwiliadau llenyddiaeth i lyfrgell Endnote a'u dad-ddyblygu. Cafodd teitlau a chrynodebau eu sgrinio i nodi adolygiadau systematig, adolygiadau ymbarél a mathau eraill o gyfuniadau tystiolaeth gyda ffocws mawr ar anghydraddoldebau iechyd. Cafodd teitlau a chrynodebau eu sgrinio gan un aelod o'r tîm ymchwil. Cafodd 10% ar hap o'r sampl eu sgrinio'n annibynnol gan ail adolygydd.

Cafwyd papurau llawn, a chafodd cyfeiriadau a allai fod yn berthnasol eu sgrinio i nodi adolygiadau systematig, adolygiadau ymbarél a ffurfiau eraill o gyfod tystiolaeth a oedd yn bodloni tair elfen allweddol meini prawf DARE ac a oedd yn canolbwyntio'n fawr ar anghydraddoldebau iechyd. Roedd p'un a oedd adolygiad yn canolbwyntio'n fawr ar anghydraddoldebau iechyd yn seiliedig ar gwmpas PRISMA-Equity 2012, h.y., roeddent naill ai'n asesu effeithiau ymyriadau, polisïau neu raglenni: (a) a dargedwyd at boblogaethau difreintiedig neu mewn perygl; neu (b) gyda'r nod o leihau graddiannau cymdeithasol ar

draws poblogaethau neu ymhlith is-grwpiau o boblogaethau. Datblygwyd fframwaith codio i arwain dethol a chategoreiddio'r llenyddiaeth a nodwyd drwy'r chwiliadau, gan gyfeirio'n benodol at y cwestiynau ymchwil craidd. Cynhaliwyd sgrinio papurau testun llawn gan yr arweinydd ymchwil. Trafodwyd y penderfyniadau terfynol ar gynhwysiant gyda'r tîm adolygu ehangach.

## Dadansoddi a chyfosod data

Gan ddefnyddio'r fframwaith codio, echdynnwyd data allweddol o'r adolygiadau a gynhwyswyd i ddarparu map o'r dystiolaeth. Roedd y data a echdynnwyd yn cynnwys: awdur; blwyddyn cyhoeddi; methodoleg adolygu; meini prawf cynhwysiant ac eithrio; poblogaeth(au) wedi'u cynnwys; ymyriad, polisi neu raglen(ni) iechyd y cyhoedd; dimensiwn(au) anghydraddoldeb; nifer yr astudiaethau sydd wedi'u cynnwys; a chanlyniadau. Perfformiwyd y gwaith codio data gan un adolygydd. Defnyddiwyd y dull Aseu Adolygiadau Systematig Lluosog 2 (AMSTAR 2) i asesu ansawdd yr adolygiadau a gynhwyswyd (12). Echdynnwyd data perthnasol o restr wirio AMSTAR 2 gan un aelod o'r tîm adolygu a'i wirio gan yr arweinydd ymchwil.

Defnyddiwyd meintiau effeithiau cyfun (lle'r adroddwyd) a gwybodaeth o drosolygon naratif i lunio disgrifiad o'r dystiolaeth a oedd ar gael. Cafodd tystiolaeth ar draws yr adolygiadau a gynhwyswyd ei chategoreiddio gyntaf yn ddau gategori penderfynydd eang yn ôl a aethpwyd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol neu ymddygiadol ehangach iechyd, fel y disgrifir isod. O fewn y ddau gategori hyn, lle bo'n bosibl, anelwyd at chategoreiddio'r dystiolaeth oedd ar gael ymhellach fel a ganlyn:

- (1) ymyriad/polisi/rhaglen yn gwella canlyniadau iechyd mewn poblogaethau SES isel yn ffafriol ('effeithiau cadarnhaol ar degwch iechyd');
- (2) ymyriad/polisi/rhaglen wedi'i thargedu yn gwella canlyniadau iechyd mewn poblogaethau SES isel ('effeithiau cadarnhaol ar gyfer poblogaethau SES isel');
- (3) nid yw'r ymyriad/polisi/rhaglen yn cael unrhyw effaith ffafriol yn ôl SES ('dim effeithiau ar degwch iechyd');
- (4) ymyriad/polisi/rhaglen yn gwella canlyniadau iechyd mewn poblogaethau SES uchel yn ffafriol ('effeithiau negyddol ar degwch iechyd');
- (5) effaith ymyriad/polisi/rhaglen yn ôl SES yn anhysbys ('effeithiau aneglur/amhendant ar degwch iechyd' neu 'ddiffyg tystiolaeth').

Yn ymarferol, fodd bynnag, ni ddaeth patrymau clir o gyfeiriad effeithiau ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd i'r amlwg ar draws y categorïau ymyrraeth a phenderfynyddion. Trafodir hyn ymhellach yn yr adroddiad.

## Categoreiddio adolygiadau ymbarél ac adolygiadau i categorïau penderfynyddion

### *Penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd*

Roedd ein diffiniad o benderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd yn seiliedig ar ddiffiniad WHO mai dyma'r "ffactorau anfeddygol sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd".

Fe wnaethom hefyd ddefnyddio model enfys Dahlgren a Whitehead (13) fel fframwaith i helpu gyda chategoreiddio. Yn dilyn y categori cychwynnol hwn, trefnwyd tystiolaeth yn mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd o dan feysydd polisi fframwaith Tegwch WHO (14):

- Gwasanaethau iechyd
- Diogelwch incwm a diogelu cymdeithasol
- Amodau byw
- Cyfalaf cymdeithasol a dynol
- Cyflogaeth ac amodau gwaith

#### *Penderfynyddion ymddygiadol iechyd*

Mae llawer o ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd yn canolbwyntio ar newid ymddygiadol unigolion (er enghraifft, diet, gweithgarwch corfforol, neu ysmegu) ac felly fe wnaethom gategoreiddio tystiolaeth sy'n disgyn i'r categori hwn fel penderfynyddion ymddygiadol iechyd. Mae'r Olwyn Newid Ymddygiadol (BCW) (15) yn gwahaniaethu rhwng ymyriadau a pholisïau ar gyfer cyflawni newid ymddygiadol. Felly defnyddiwyd saith categori polisi BCW gennym i gategoreiddio ymhellach y dystiolaeth a oedd yn mynd i'r afael â phenderfynydd ymddygiadol iechyd:

- Cyllidol
- Rheoleiddio
- Deddfwriaeth
- Deunydd Cyfathrebu Marchnata
- Canllawiau (nid oedd y categori hwn yn berthnasol)
- Cynllunio amgylcheddol/cymdeithasol
- Darpariaeth gwasanaeth

## 3 Crynodeb o'r adolygiadau sydd wedi'u cynnwys

### Canlyniadau'r broses sgrinio

Nodwyd cyfanswm o 8,144 o gyfeiriadau trwy'r chwiliadau cronfa ddata. Ar ôl dileu dyblygiadau, cadwyd 4,859 o gyfeiriadau. Cafodd teitlau a chrynodebau eu sgrinio gan un adolygydd a dewiswyd 265, a chafodd 258 ohonynt eu hadalw ar gyfer sgrinio testun llawn. Dewiswyd cyfanswm o 116 o adolygiadau i'w cynnwys a nodwyd 33 o adolygiadau ychwanegol drwy sgrinio rhestrau cyfeirio ('chwilio dyfyniadau').

Dangosir llif cynnwys astudiaethau yn siart llif PRISMA yn Ffigur 1. Cafodd cyfanswm o 141 o adroddiadau eu heithrio yn seiliedig ar sgrinio testun llawn. Darperir manylion y dyfyniadau yn Atodiad 1 gyda'r rheswm dros eithrio. Cafodd pedwar adroddiad eu heithrio am y rheswm 'Arall'. Ar gyfer y pedwar adroddiad hyn fe wnaethom nodi fersiwn mwy cyfredol neu gyflawn o'r adolygiad.

Dewiswyd adroddiadau ar gyfer 17 o adolygiadau ymbarél a 132 o adolygiadau i'w cynnwys a'u categorio yn ôl y categorïau penderfynyddion (penderfynyddion cymdeithasol ehangach neu benderfynyddion ymddygiadol). Archwiliodd deuddeg adolygiad ymbarél (16-27) a 54 adolygiad (28-81) adolygiadau o ymyriadau, polisïau a rhaglenni sy'n targedu penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd. Archwiliodd wyth adolygiad ymbarél (22, 24, 27, 82-86) a 79 adolygiad (74, 87-164) ymyriadau, polisïau a rhaglenni a dargedwyd at benderfynyddion ymddygiadol iechyd. Cafodd tri adolygiad ymbarél (22, 24, 27) ac un adolygiad (74) eu categorio o dan y ddau gategori penderfynydd. Dangosir dadansoddiad o'r mathau o adolygiadau yn ôl y categorïau penderfynyddion yn Nhabl 1.

O'r adolygiadau, roedd 116 o adroddiadau yn adolygiadau systematig (30-41, 43, 45-51, 54, 55, 59-61, 63-69, 71-80, 87-114, 116-137, 140-164), roedd wyth adroddiad yn adolygiadau cwmpasu (29, 42, 57, 62, 81, 115, 138, 139) ac roedd saith adroddiad o adolygiadau a ddisgrifiwyd fel mathau 'arall' (28, 44, 52, 53, 56, 58, 70). Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r dulliau, roedd tri yn adolygiadau realaidd, roedd dau yn fetadadansoddiadau data cleifion unigol (IPD), ac roedd dau yn gyfuniadau tystiolaeth meta-naratif.

Tabl 1. Dadansoddiad o'r mathau o adolygiadau ar draws y categorïau penderfynyddion

Categori penderfynydd		Adolygiadau ymbarél	Adolygiadau systematig	Adolygiadau cwmpasu	Adolygiadau 'arall'
Cymdeithasol ehangach	Gwasanaethau iechyd	1	6	1	2
	Diogelwch incwm a diogelu cymdeithasol	3	5	1	2
	Amodau byw	6	9	3	1
	Cyfalaf cymdeithasol a dynol	2	15	-	2
	Cyflogaeth ac amodau gwaith	4	6	-	-
	<i>Cyfanswm</i>	12	42	5	7
	1 ymddygiad	Cyllidol	4	10	1
Rheoleiddio a deddfwriaeth		2	15	-	-
Cyfathrebu/marchnata		2	10	-	-
Cynllunio amgylcheddol a chymdeithasol		-	4	-	-
Darpariaeth gwasanaeth		1	36	2	-
<i>Cyfanswm</i>		8	76	3	0
<i>Cyfanswm</i>		17	116	8	7
Adolygiadau 'arall' = 3 adolygiad realaidd, 2 feta-ddadansoddiad data cleifion unigol, 2 gyfuniad meta-naratif o dystiolaeth					

## Asesiad ansawdd

Defnyddiwyd dull AMSTAR 2 i asesu ansawdd yr adolygiadau systematig a gynhwyswyd, a chwblhawyd 109 o asesiadau unigol ar gyfer 116 o adolygiadau (am fanylion llawn yr asesiad gweler Atodiad 2). Ni chynhaliwyd asesiadau gydag AMSTAR 2 ar gyfer yr 17 adolygiad ymbarél, wyth adolygiad cwmpasu a saith math o adolygiad 'arall'.

Mae saith o'r eitemau AMSTAR 2 (eitemau 2, 4, 7, 9, 11, 13 a 15) wedi'u hamlygu fel meysydd hollbwysig ar gyfer dilysrwydd yr adolygiad a'i gasgliadau (12). Roedd gan chwe deg pedwar o adolygiadau broblemau mewn dau neu fwy o'r meysydd hollbwysig (heb gynnwys eitemau 11 a 15 a oedd yn berthnasol dim ond os oedd meta-ddadansoddiad wedi'i gynnal). Uchafswm nifer y materion ar draws y saith eitem oedd 5, ac roedd gan bum adolygiad faterion ar draws y pum eitem hyn. Wrth archwilio pob un o'r saith eitem yn eu tro, adroddodd cyfanswm o 59 allan o'r 108 adolygiad fod protocol wedi'i gofrestru cyn dechrau'r adolygiad (eitem 2). Cyfeiriodd tri adolygiad pellach at brotocol, ond nid oedd yn glir a oedd y protocol wedi bod ar gael i'r cyhoedd cyn i'r adolygiad ddechrau. Nododd 100 o adolygiadau chwiliad llenyddiaeth digonol (eitem 4). Roedd tri adolygiad (110, 135, 147) yn seiliedig ar ddadansoddiad eilaidd o ddata a gynhwyswyd mewn adolygiad (neu adolygiadau) arall ac felly ni wnaethant adrodd ar strategaeth chwilio. Yr eitem yn ymwneud â chyfiawnhad dros eithrio astudiaethau unigol (eitem 7) oedd lle nad oedd y rhan fwyaf o'r adolygiadau a gynhwyswyd yn bodloni'r meini prawf eitem ac roedd awduron mewn 17 adolygiad yn unig wedi rhoi cyfrif llawn am yr astudiaethau a eithriwyd o'r adolygiad. Adroddodd llawer o astudiaethau fanylion eithriadau mewn siart llif PRISMA, ond nid oedd yn gyffredin i awduron archwilio'n llawn effaith eithrio astudiaethau o'u hadolygiadau.

Nododd cyfanswm o 94 o adolygiadau fod techneg foddhaol wedi'i defnyddiol i asesu risg o ragfarn ar draws yr astudiaethau unigol a gynhwyswyd yn yr adolygiad (eitem 9). Ar gyfer 11 adolygiad, roedd y technegau a ddefnyddiwyd i asesu risg o ragfarn naill ai'n anfoddhaol neu ni chynhaliwyd asesiad risg o ragfarn. Ar gyfer pedwar adolygiad, nid oedd yn bosibl ateb yr eitem hon gan na ddarparwyd digon o fanylion am y dechneg. Roedd yn anodd asesu a oedd awduron adolygiadau wedi ystyried y risg o ragfarn wrth ddehongli canlyniadau'r adolygiad (eitem 13) ar draws sawl adolygiad ac ar gyfer 40 o adolygiadau, marciwyd yr eitem hon fel 'Methu ateb'. Ar gyfer 53 o adolygiadau, roedd cyfeiriad penodol at effeithiau posibl risg o ragfarn a bodlonwyd yr eitem hon. Adroddodd cyfanswm o 29 o adolygiadau am feta-ddadansoddiad. Dim ond un adolygiad na nododd ddulliau meta-ddadansoddol priodol (eitem 11) gan nad oedd unrhyw drafodaeth ar yr egwyddorion a arweiniodd y meta-ddadansoddiad o ddata. Roedd ugain adolygiad a adroddodd am feta-ddadansoddiad hefyd wedi cynnal asesiad digonol o bresenoldeb ac effaith debygol tuedd cyhoeddi (eitem 15).



**Nodi astudiaethau trwy gronfeydd data**

Cofnodion a nodwyd o:  
 CDSR (n= 14)  
 Campbell Library (n= 1)  
 Medline (n= 1,852)  
 PsycInfo (n= 1,525)  
 CINAHL (n= 1,352)  
 SSCI (n= 1,736)  
 DoPHER (n= 304)  
 Public Health Database (n= 1,247)  
 Health Systems Evidence (n= 115)

Cofnodion wedi'u tynnu cyn sgrinio:  
 Dilewyd cofnodion dyblyg (n= 3,285)

Cofnodion a sgriniwyd (n= 4,859)

Cofnodion a eithriwyd (n= 4,594)

Adroddiadau y ceisiwyd i'w hadalw (n= 265)

Cofnodion heb eu hadalw (n= 7)

Adroddiadau a aseswyd ar gyfer cymhwysedd (n= 258)

Adroddiadau a eithriwyd (n=141):  
 Ymyrraeth (n= 8)  
 Math o astudiaeth (n= 60)  
 Cyd-destun (n= 16)  
 Canlyniad(au) (n= 53)  
 Arall (n= 4)

Cyfanswm yr adroddiadau a gynhwyswyd yn yr adolygiad:  
 Adolygiadau ymbarél (n= 17)  
 Adolygiadau systematig (n= 116)  
 Adolygiadau cwmpasu (n= 8)  
 Mathau 'eraill' o adolygiadau (n= 7)

**Nodi astudiaethau trwy ddulliau eraill**

Cofnodion a nodwyd o:  
 Chwilio am ddyfyniadau (n= 33)

Ffigur 1. Siart Ilif PRISMA

## 4 Penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd

Archwiliodd deuddeg adolygiad ymbarél (16-27) a 54 adolygiad (28-78, 80, 81, 165) adolygiadau o ymyriadau, polisiau a rhaglenni sy'n targedu penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd (Tabl 2). Cafodd dros 300 o adolygiadau eu cynnwys ar draws yr adolygiadau ymbarél ac roedd rhywfaint o orgyffwrdd o ran cynhwysiant, yn enwedig ym meysydd cyflogaeth ac amodau gwaith ac amodau byw. Archwiliodd pob un o'r 12 adolygiad ymbarél effeithiau ar ystod eang o ganlyniadau iechyd ac archwiliodd dau adolygiad ymbarél (17, 23) effeithiau nad ydynt yn ymwneud ag iechyd. O'r adolygiadau, archwiliodd 30 (30-33, 36-41, 43-46, 48, 49, 54, 56, 58, 60, 61, 63, 64, 66, 67, 71-73, 75, 165) effeithiau ar ddeilliannau iechyd eang (gan gynnwys canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol), canolbwyntiodd tri (65, 70, 76) ar ganlyniadau iechyd meddwl yn unig ac archwiliodd tri (51, 55, 80) ddeilliannau nad ydynt yn ymwneud ag iechyd (pob canlyniad yn ymwneud ag addysg). Archwiliodd y 12 adolygiad systematig arall (34, 35, 47, 50, 52, 53, 59, 68, 69, 74, 77, 78) ystod gulach o ganlyniadau iechyd a oedd yn fwy penodol i'r ymyriad, y polisi neu'r rhaglen dan sylw. Ceir manylion llawn yn y tablau data cryno yn Atodiad 3.

Tabl 2. Crynodeb o adolygiadau o ymyriadau, polisiau a rhaglenni: penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd

Cyfeirnod	Math o adolygiad	Targed(au)/Ymyriad(au)	Maes Gweithredu
Abimbola et al., 2019 (28)	Adolygiad	Llywodraethu datganoledig	1
Ballesteros-Arjona et al., 2022 (29)	Cwmpasu	Tlodi ynni	3
Bambra et al., 2007 (30)	Adolygiad	Ad-drefnu gwaith	5
Bambra et al., 2008a (32)	Adolygiad	Gwaith sifft ar lefel sefydliadol	5
Bambra et al., 2008b (31)	Adolygiad	Wythnos waith gywasgedig	5
Bambra et al., 2009 (16)	Ymbarél	Newidiadau sefydliadol i'r amgylchedd gwaith seicogymdeithasol	5
Bambra et al., 2010 (17)	Ymbarél	Penderfynyddion cymdeithasol iechyd	1, 2, 3, 4, 5
Bambra et al., 2014 (18)	Ymbarél	Sefydliadol ac ariannol	1
Benmarhnia et al., 2014 (34)	Adolygiad	Llygredd aer	3
Black et al., 2012 (35)	Adolygiad	Cymhorthdal bwyd	3
Bonell et al., 2013 (36, 37)	Adolygiad	Amgylchedd ysgol	4
Brennenstuhl et al., 2012 (38)	Adolygiad	Cyfundrefnau lles	2
Brunton et al., 2015 (39)	Adolygiad	Ymwneud â'r gymuned	4
Butel and Braun, 2019 (40)	Adolygiad	Effeithlonwydd cymunedol ar y cyd	4
Buttazzoni et al., 2020 (41)	Adolygiad	Dinas glyfar	3
Cairns et al., 2015a (19)	Ymbarél	Parthau a therfynau 20mya/30kya	3
Carter et al., 2018 (42)	Cwmpasu	Llywio cleifion	1
Cheng et al., 2020 (43)	Adolygiad	Iechyd	1
Cleland et al., 2020 (44)	Adolygiad	Parthau a therfynau 20mya/30kya	3
Cyril et al., 2015 (45)	Adolygiad	Ymwneud â'r gymuned	4
Dawson et al., 2015 (46)	Adolygiad	Llywodraethu nyrsio a bydwreigiaeth	1
Durand et al., 2014 (47)	Adolygiad	Gwneud penderfyniadau ar y cyd	1
Egan et al., 2007a (48)	Adolygiad	Cyfranogiad cyflogaeth	5

Egan et al., 2007b (49)	Adolygiad	Preifateiddio	5
Fairbank et al., 2000 (50)	Adolygiad	Hyrwyddo bwydo ar y fron	4
Finnie et al., 2019 (51)	Adolygiad	Calendrau ysgol gydol y flwyddyn	4
Gardner et al., 2017 (52, 53)	Adolygiad	Rhianta	4
Gibson et al., 2011 (20)	Ymbarél	Tai	3
Gibson et al., 2017 (54)	Adolygiad	Lles i weithio	2
Wilson et al., 2011 (80); Hahn et al., 2015 (55)	Adolygiad	Cwblhau'r ysgol uwchradd	4
Harris et al., 2015 (56)	Adolygiad	Cefnogaeth gan gymheiriaid cymunedol	1
Hillier-Brown et al., 2019 (21)	Ymbarél	Polisiau diogelu cymdeithasol	2
Hosford et al., 2021 (57)	Cwmpasu	Polisi prisio ffyrdd	3
Hunter et al., 2019 (58)	Adolygiad	Man gwyrdd trefol	3
Ibanez et al., 2012 (59)	Adolygiad	Hyrwyddo bwydo ar y fron	4
Joyce et al., 2010 (60)	Adolygiad	Amodau gwaith hyblyg	5
Kim et al., 2016 (61)	Adolygiad	Gweithwyr iechyd cymunedol	1
Klingbaum et al., 2021 (62)	Cwmpasu	Datblygiad rheilffordd ysgafn	3
Ljungdahl & Bremberg, 2015 (63)	Adolygiad	Addysg lefel uwchradd estynedig/gorfodol	4
Lucas et al., 2008 (64)	Adolygiad	Lles	2
McGowan et al., 2021 (23)	Ymbarél	Seiliedig ar le	3
McGrath et al., 2021 (65)	Adolygiad	Lles	2
Molloy et al., 2021 (66); Beatson et al., 2021 (33)	Adolygiad	Ymweliadau cartref nyrsio parhaus	4
Morrison et al., 2014 (67)	Adolygiad	Rhianta	4
Mulvaney et al., 2015 (68)	Adolygiad	Seilwaith beicio	3
Naik et al., 2019 (24)	Ymbarél	Ffactorau economaidd macro, lefel poblogaeth	2
Nelson et al., 2020 (69)	Adolygiad	Llywio cleifion	1
O'Campo et al., 2015 (70)	Adolygiad	Yswiriant diweithdra	2
O'Dwyer et al., 2007 (71)	Adolygiad	Yn seiliedig ar ardal	3
O'Mara-Eves et al., 2013 (72, 73)	Adolygiad	Ymwneud â'r gymuned	4
Olstad et al., 2017 (74)	Adolygiad	Yr amgylchedd adeiledig	3
Parry et al., 2021 (81)	Cwmpasu	Ymyriadau lleoliad gofal sylfaenol i fynd i'r afael â thlodi	2
Pega et al., 2013 (75)	Adolygiad	Credydau treth mewn gwaith	2
Pierron et al., 2018 (25)	Ymbarél	Rhianta	4
Shah et al., 2021 (26)	Ymbarél	Penderfynyddion cymdeithasol iechyd meddwl	2, 3
Simpson et al., 2021 (76)	Adolygiad	Diwygio polisi nawdd cymdeithasol	2
Smith et al., 2017 (77)	Adolygiad	Yr amgylchedd adeiledig	3
Stormacq et al., 2020 (78)	Adolygiad	Llythrennedd iechyd	1
Thomson et al., 2013 (79)	Adolygiad	Tai	3
Allwedd i fathau o adolygiadau: Ymbarél = adolygiad ymbarél; Adolygiad = adolygiad systematig neu adolygiad 'arall'; Cwmpasu = adolygiad cwmpasu. Allwedd i feysydd gweithredu polisi: 1 = Gwasanaethau iechyd; 2 = Diogelwch incwm a diogelu cymdeithasol; 3 = Amodau byw; 4 = Cyfalaf cymdeithasol a dynol; 5 = Cyflogaeth ac amodau gwaith			

## Gwasanaethau iechyd

Mae gan y sector iechyd rôl hollbwysig wrth fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd. Mae ffactorau gan gynnwys ariannu systemau iechyd a hygyrchedd ac argaeledd gwasanaethau gofal iechyd yn bwysig wrth benderfynu a yw'r sector yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar degwch iechyd. Archwiliodd un adolygiad ymbarél (18) ac un adolygiad realaidd (28) ddiwygiadau sefydliadol ac ariannol i'r system iechyd. Archwiliodd un adolygiad ymbarél (17) a phedwar adolygiad (46, 56, 61, 69) ymyriadau a oedd yn canolbwyntio ar fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Ar lefel yr adolygiad, nodwyd dau faes ymyrraeth allweddol a oedd a dargedwyd at grwpiau â SES isel. Archwiliodd tri adolygiad ymyriadau lefel unigol/cymunedol (56, 61, 69), archwiliodd un adolygiad ymyriadau lefel sefydliadol (46), ac archwiliodd un adolygiad yr un ymyriadau gwneud penderfyniadau ar y cyd (47) ac ymyriadau llythrennedd iechyd (78).

### Diwygiadau sefydliadol ac ariannol

Archwiliwyd tegwch iechyd mewn naw adolygiad a gynhwyswyd yn yr adolygiad ymbarél gan Bambra et al. (18) ar ymyriadau system sefydliadol ac ariannol. Archwiliwyd pum maes diwygio: ariannu systemau cyffredinol, prynu'n uniongyrchol, trefnu gwasanaethau, integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, a dyrannu adnoddau. Ar y cyfan, barnwyd bod ansawdd y dystiolaeth lefel adolygiad systematig o ansawdd gwael. Daeth yr awduron i'r casgliad bod diwygiadau ariannol a sefydliadol i'r system gofal iechyd wedi cael effeithiau amhendant neu negyddol ar degwch iechyd. Daethant hefyd i gasgliad cryf bod diwygiadau ar sail y farchnad i iechyd a gofal cymdeithasol (hy, cyflwyno mwy o gystadleuaeth o fewn system a ariennir yn gyhoeddus) yn cael effeithiau negyddol ar degwch iechyd.

Gan ddefnyddio dull realaidd o gyfuno tystiolaeth, gwnaeth Abimbola et al. (28) archwilio sut y gall diwygiadau datganoli a symud oddi wrth systemau iechyd a lywodraethir yn ganolog effeithio ar degwch, effeithlonrwydd a gwytnwch systemau iechyd. Daeth yr awduron i'r casgliad, gan fod datganoli'n creu canolfannau llywodraethu lluosog, fod yr effeithiau ar degwch iechyd yn dibynnu ar y perthnasoedd llorweddol a fertigol sy'n ffurfio ar draws y gwahanol ganolfannau hyn. Gall systemau iechyd datganoledig gael effaith gadarnhaol ar degwch trwy fod yn "agos at y ddaear".

### Cynnwys cleifion mewn gofal iechyd

Archwiliodd un adolygiad ymbarél (17) a thri adolygiad (56, 61, 69) ymyriadau llywio ac yn y gymuned/cymorth cymheiriaid, sydd wedi'u cynllunio'n gyffredin mewn ymateb i gymhlethdodau cynyddol darparu gwasanaethau iechyd, neu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol o ran mynediad i gofal. Gwnaeth Bambra et al. (17) cynnwys pedwar adolygiad, tri ohonynt yn canolbwyntio ar ymyriadau a dargedwyd i wella mynediad diwylliannol ac un ar wella mynediad daearyddol. Ni adroddodd yr un o'r adolygiadau ar effeithiau gwahaniaethol, ac ni adroddwyd ar effeithiau ar boblogaethau incwm isel ar wahân i fathau eraill o anfantais. Ar lefel adolygiad, ar draws tri adolygiad roedd tystiolaeth bod ymyriadau llywio cleifion (69) ac ymyriadau cymorth cymheiriaid yn y gymuned (56, 61) wedi cael effeithiau cadarnhaol ymhlith poblogaethau a dargedwyd, gan gynnwys poblogaethau SES isel. Fodd bynnag, yma hefyd, ni chafodd effeithiau ar

boblogaethau SES isel eu harchwilio ar wahân i fathau eraill o anfantais. Daeth adolygiad realaidd o gymorth yn y gymuned (56) i'r casgliad bod y potensial i'r ymyriad fod yn effeithiol yn dibynnu ar ddealltwriaeth o'r cyd-destun tegwch amgylchynol. Gwnaeth Dawson et al. (46) archwilio cyfraniad y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth at hygyrchedd ac ansawdd y gwasanaeth iechyd, ond roedd y canfyddiadau'n amhendant.

Gwnaeth Durand et al. (47) archwilio ymyriadau a gynlluniwyd i gefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd a nodi ymyriadau a dargedwyd a rhai cyffredinol. Daeth yr awduron i'r casgliad bod ymyriadau gwneud penderfyniadau ar y cyd yn fwy effeithiol ar gyfer grwpiau difreintiedig o gymharu â grwpiau mwy breintiedig. Canfu adolygiad o ymyriadau llythrennedd iechyd a dargedodd oedolion SES isel (78) fod ymyriadau yn fwy tebygol o fod yn effeithiol os oeddent yn seiliedig ar theori ac yn amlochrog. Gwnaeth Cheng et al. (43) ystyried llythrennedd iechyd wrth ddatblygu ymyriadau iechyd electronig (elechyd) ar gyfer poblogaethau difreintiedig. Prin oedd y dystiolaeth am effeithiolrwydd ymyriadau elechyd a dargedwyd at boblogaethau SES isel.

## Diogelwch incwm a diogelu cymdeithasol

Mae incwm a thlodi yn amlwg yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd (166), ac mae polisiâu diogelu cymdeithasol a gwladwriaeth les sy'n amddiffyn rhag colli incwm yn arfau polisi pwysig ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae ymyriadau polisi diogelwch incwm a diogelu cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar y penderfynyddion cyfryngol fel arfer yn dilyn dull 'targedu' o leihau anghydraddoldebau iechyd gan mai'r nod yw cynorthwyo grwpiau sy'n agored i dlodi. Archwiliodd tri adolygiad ymbarél (17, 21, 24) bolisiâu sicrwydd incwm a diogelu cymdeithasol. Ar draws y tri adolygiad ymbarél, cynhwyswyd 13 adolygiad systematig: un o wasanaethau cyngor lles wedi'u cydleoli mewn lleoliadau iechyd; dau o arian parod a buddion eraill mewn gwaith; a phump o raglenni marchnad lafur gweithredol. Nodwyd wyth adolygiad ychwanegol (38, 54, 64, 65, 70, 75, 76, 81) trwy'r chwiliadau. Archwiliodd chwe adolygiad systematig a math arall o adolygiad (54, 64, 65, 70, 75, 76) ymyriadau polisi diogelwch incwm a diogelu cymdeithasol penodol ac archwiliodd un adolygiad benderfynyddion strwythurol gyda ffocws ar ddiogelwch incwm macro a pholisi diogelu cymdeithasol (38).

### Ymyriadau penodol

Archwiliodd un adolygiad ymbarél (17) ac un adolygiad (65) dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau cyngor lles wedi'u cydleoli mewn lleoliadau iechyd. Ar y cyfan, prin oedd y dystiolaeth am y ddarpariaeth o gyngor cyfreithiol a lles mewn gofal sylfaenol a'i effeithiau ar ganlyniadau iechyd.

Archwiliodd tri adolygiad ymbarél (17, 21, 24) y dystiolaeth yn ymwneud â diogelu cymdeithasol gan gynnwys arian parod a buddion eraill mewn gwaith a rhaglenni marchnad lafur gweithredol. Cafodd wyth adolygiad eu cynnwys ar draws yr adolygiadau ymbarél, ac roedd tri ohonynt yn berthnasol i anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol (64, 70, 75). Nodwyd tri adolygiad pellach yn y chwiliadau (54, 65, 76). Nododd Hillier-Brown et al. (21) yn graddio eu hyder yng nghanfyddiadau Pega et al. (75) ac O'Campo et al. (70) yn isel ac yn hynod o isel, yn y drefn honno, ac ni wnaeth Lucas et al. (64) nodi dystiolaeth o

effeithiau ar degwch iechyd, gan ddangos diffyg tystiolaeth. Gwnaeth yr adolygiad mwy diweddar gan McGrath et al. (65) nodi canfyddiadau amhendant o ran effeithiau iechyd rhaglenni marchnad lafur gweithredol. Gwnaeth Gibson et al. (54) hefyd ganfod nad oedd rhaglenni o fudd-dal i waith a anelir at rieni unigol yn cael effeithiau pwysig ar iechyd. Gwnaeth Simpson et al. (76) archwilio diwygiadau i bolisi nawdd cymdeithasol, gan ganfod bod polisiau crebachu (er enghraifft, sy'n lleihau haelioni budd-daliadau neu feini prawf cymhwyster tynnach) yn tueddu i gael effeithiau negyddol ar degwch iechyd, tra bod polisiau ehangu (er enghraifft, cyflwyno budd-dal newydd) yn cael effeithiau cadarnhaol.

### Polisi'r wladwriaeth les

Archwiliodd un adolygiad (38) effeithiau polisiau gwladwriaeth les ar degwch iechyd. Nid oedd y canfyddiadau'n gyson â damcaniaeth y gyfundrefn les mai gwledydd â chyfundrefnau democrataidd cymdeithasol (yn bennaf, gwledydd Llychlyn) sydd â'r anghydraddoldebau iechyd isaf o gymharu â chyfundrefnau eraill.

## Amodau byw

Mae amodau byw ac amgylcheddol yn benderfynyddion cyfryngol pwysig ar gyfer iechyd (167). Mae poblogaethau dan anfantais yn wynebu mwy o amlygiad i risgiau a bygythiadau amgylcheddol ac efallai nad oes ganddynt fynediad diogel at nwyddau ac amwynderau sylfaenol, a thai fforddiadwy digonol.

### Tai

Archwiliodd dau adolygiad ymbarél (17, 20), un adolygiad systematig (79) ac un adolygiad cwmpasu (29) effeithiau ymyriadau a oedd yn anelu at wella amodau tai ar degwch iechyd. Ni nododd y naill adolygiad ymbarél na'r llall dystiolaeth ar effeithiau gwahaniaethol yn ôl SES ac roedd y rhan fwyaf o ymyriadau wedi'u hanelu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy dargedu grwpiau difreintiedig. Nododd adolygiad cwmpasu diweddar gyda ffocws penodol ar degwch (29), hefyd ddiffyg astudiaethau a adroddodd ar effeithiau gwahaniaethol yn ôl SES. Canfu adolygiad Cochrane (79) a archwiliodd welliannau i ffabrig ffisegol tai hefyd fod llawer o ymyriadau wedi'u targedu at grwpiau incwm isel. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad y gallai gwelliannau cyffredinol i gyflwr tai a dargedwyd at grwpiau isel eu gallu arwain at wella iechyd.

### Amgylchedd a thrafnidiaeth

Archwiliodd pedwar adolygiad ymbarél (17, 19, 23, 27) adolygiadau o ymyriadau a pholisiau a oedd yn targedu'r amgylchedd a thrafnidiaeth. Ni wnaeth Thomson et al. (27) na McGowan et al. (23) fodd bynnag, nodi unrhyw gasgliadau penodol am effeithiau ymyriadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd ar degwch iechyd. At hynny, nid oedd yr un o'r adolygiadau a gynhwyswyd yn yr adolygiad ymbarél gan Bambra et al. (17) yn cyflwyno gwybodaeth yn ymwneud ag effeithiau polisiau neu ymyriadau trafndiaeth ar degwch iechyd.

Ar lefel yr adolygiad, archwiliodd wyth adolygiad (34, 41, 57, 58, 62, 68, 74, 77) ymyriadau a pholisiau a oedd yn targedu'r amgylchedd a thrafnidiaeth. Roedd astudiaethau'n ddiffygiol ar effeithiau tegwch iechyd newidiadau ffisegol i fannau gwyrdd trefol (58), seilwaith beicio (68), newidiadau i'r amgylchedd adeiledig mewn cymunedau difreintiedig (74) ac ymyriadau

trefol dinasoedd clyfar ac uwch-dechnoleg (41). Nodwyd tair astudiaeth a archwiliodd effeithiau gwahaniaethol ymyriadau i leihau llygredd aer i'w cynnwys yn yr adolygiad gan Benmarhnia et al. (34), a Smith et al. (77) dair astudiaeth a archwiliodd effeithiau nodweddion amgylchedd adeiledig ar degwch iechyd. Roedd canlyniadau'n gymysg ar draws y ddau faes ymyrraeth. Nododd un adolygiad (57), a archwiliodd brisio ffyrdd, naw astudiaeth a oedd yn asesu effeithiau yn ôl incwm neu SES (roedd un astudiaeth yn gorgyffwrdd â (34)). Daeth yr awduron i'r casgliad, er nad oedd yr effeithiau'n gyson, maen nhw'n awgrymu, gan fod prisiau tagfeydd yn tarfu'n fwy ar bobl ar incwm is, y gallai gael effaith negyddol ar degwch iechyd. Defnyddiodd un adolygiad cwmpasu (62) lens penderfynyddion cymdeithasol iechyd i archwilio datblygiad trafndiaeth rheilffyrdd ysgafn, gan ganfod y gellid ei gysyniadoli fel rhywbeth sy'n cael effaith negyddol ar degwch iechyd. Archwiliodd un adolygiad ymbarél (19) ac un adolygiad (44) ymyriadau 20 mya gan gynnwys parthau a chyfyngiadau. Gwnaeth Cleland et al. (44) nodi un astudiaeth a archwiliodd effeithiau gwahaniaethol yn ôl SES, na chanfu unrhyw effeithiau ar degwch iechyd yn seiliedig ar ganlyniadau i gerddwyr ac anafiadau ffyrdd.

### Sicrwydd bwyd

Archwiliodd un adolygiad ymbarél (17) a dau adolygiad (35, 65) bolisiau sy'n effeithio ar argaeledd bwyd. Yn eu hadolygiad ymbarél, mae Bambra et al. (17) yn nodi adolygiad o gymhellion ariannol, ond nid oedd gan yr adolygiad hwn ffocws clir ar degwch iechyd. Gwnaeth Blank et al. (35) archwilio rhaglenni cymhorthdal bwyd fel un strategaeth ar gyfer hyrwyddo maeth iach i deuluoedd incwm isel a chanfod tystiolaeth gyfyngedig, ond o ansawdd uchel, o effaith gadarnhaol. Gwnaeth McGrath et al. (65) archwilio ymyriadau ansicrwydd bwyd ond dim ond un astudiaeth a nodwyd i'w chynnwys.

## Cyfalaf cymdeithasol a dynol

Mae cyfalaf cymdeithasol a dynol yn benderfynyddion mawr iechyd. Yn ôl yr OECD (1998), cyfalaf dynol yw'r "wybodaeth, sgiliau a chymwyseddau a phriodoleddau eraill a ymgorfforir mewn unigolion sy'n berthnasol i weithgarwch economaidd". Felly credir bod polisiau sy'n mynd i'r afael â bylchau ym mhrofiadau plant yn ystod plentyndod cynnar a chanlyniadau addysgol ar draws cwrs bywyd yn hanfodol i sicrhau mwy o degwch iechyd. Mae cyfalaf cymdeithasol yn gysyniad mwy cymhleth ac mae wedi'i ddiffinio gan Putnam (1993) yn ôl sawl nodwedd wahanol: rhwydweithiau cymunedol, ymgysylltu dinesig, hunaniaeth ddinesig, dwyochredd, ac ymddiriedaeth. Mae diddordeb cynyddol felly yn rôl dulliau cymunedol-ganolog ar gyfer adeiladu cyfalaf cymdeithasol a lleihau anghydraddoldebau iechyd (168).

### Addysg a dysgu ar draws cwrs bywyd

Roedd cwmpas yr adolygiad ymbarél gan Bambra et al. (17) yn cynnwys ymyriadau yn ymwneud ag addysg. Fodd bynnag, ni chanfu'r awduron unrhyw adolygiadau systematig o effeithiau iechyd ymyriadau addysg oedolion. Ar lefel adolygiad, archwiliodd dau adolygiad a gynhaliwyd fel rhan o broses Adolygu Canllaw Cymunedol yr Unol Daleithiau addysg o safbwynt tegwch iechyd. Gwnaeth Finnie et al. (51) archwilio effeithiau calendrau ysgol trwy gydol y flwyddyn ar gyrrhaeddiad addysgol, gan ganfod effeithiau cymysg ymhlith grwpiau

SES isel ar gyfer calendrau trac sengl mewn tair astudiaeth. Gwnaeth dau adolygiad cysylltiedig gan Wilson et al. (80) a Hahn et al. (55) archwilio rhaglenni a fwriadwyd i gynyddu cyfraddau cwblhau ysgolion uwchradd, gan ddod o hyd i dystiolaeth y gallai amrywiaeth o raglenni wella cyfraddau cwblhau ysgolion. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r adolygiadau yn archwilio effeithiau ar ganlyniadau iechyd. Archwiliodd adolygiad pellach gan Ljungdahl a Bremberg (63) ganfyddiadau o arbrofion naturiol addysg orfodol neu uwchradd estynedig a'r effeithiau iechyd ar bobl â'r lefel isaf o addysg. Daeth yr awduron i'r casgliad ei bod yn annhebygol bod addysg orfodol estynedig wedi cael effaith sylweddol ar iechyd pobl â lefel is o addysg.

Archwiliodd dau adolygiad gan yr un tîm ymchwil (36, 37) effeithiau ymyriadau a oedd yn targedu amgylchedd yr ysgol i wella iechyd a llesiant. Er bod archwilio'r effeithiau ar degwch iechyd yn amcan allweddol ar gyfer yr adolygiad, ni nodwyd digon o ddata a oedd yn dangos diffyg tystiolaeth.

## Gwella cyfalaf cymdeithasol unigolion a chymunedau

### *Ymgysylltu â'r gymuned*

Ystyrir bod ymgysylltu â'r gymuned yn strategaeth bwysig ar gyfer gwella iechyd ac fe'i diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd fel "proses o ddatblygu perthnasoedd sy'n galluogi rhanddeiliaid i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag iechyd a hyrwyddo llesiant i gyflawni effaith a chanlyniadau iechyd cadarnhaol" (169). Mae modelau gwahanol o ymgysylltu â'r gymuned, a all amrywio o ran dyfnder, lefel ac ehangder (170). Roedd pedwar adolygiad yn archwilio ymgysylltiad cymunedol ar gyfer gwella iechyd poblogaethau difreintiedig (39, 45, 72, 73). Cynhaliwyd tri o'r adolygiadau gan yr un tîm ymchwil (39, 72, 73). Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod modelau ymgysylltu â'r gymuned yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar iechyd i boblogaethau difreintiedig. Fodd bynnag, oherwydd diffyg data, nid oes digon o dystiolaeth i benderfynu a yw ymgysylltu â'r gymuned wedi hynny yn cael effeithiau cadarnhaol ar degwch iechyd drwy eu heffaith ar anghydraddoldebau cymdeithasol.

### *Amgylcheddau cymdeithasol cymdogaethol*

Archwiliodd Butel a Braun (40) weithgareddau ymyrryd a gynlluniwyd i gynyddu effeithiolrwydd cyfunol, nodwedd o amgylchedd cymdeithasol y gymdogaeth, sy'n cyfeirio'n fras at barodrwydd trigolion o fewn cymdogaeth i ymyrryd er lles pawb. Fel syniad, mae effeithiolrwydd cyfunol yn ymgorffori cydlyniant cymdeithasol a rheolaeth gymdeithasol anffurfiol (171) a nododd Butel a Braun (40) dystiolaeth fod gwelliant mewn effeithiolrwydd cyfunol cymunedol yn gysylltiedig â chanlyniadau gwell ar lefel gymunedol. Fodd bynnag, roedd diffyg tystiolaeth i benderfynu a oedd effeithiolrwydd cyfunol yn cael effeithiau cadarnhaol ar degwch iechyd.

## Datblygiad plentyndod cynnar

Roedd ymyriadau allweddol i hybu datblygiad plant yn cynnwys addysg rhianta cadarnhaol, addysg rhieni ar iechyd a datblygiad plant, hybu bwydo ar y fron a hybu parodrwydd ar gyfer yr ysgol.



### *Addysg rhianta*

Archwiliodd un adolygiad ymbarél (25) adolygiadau o ymyriadau rhianta. Nodwyd tri adolygiad a esboniodd fod eu canlyniadau yn cefnogi effeithiau cadarnhaol ar anghydraddoldebau cymdeithasol a soniodd un adolygiad am effeithiau negyddol. Nododd yr awduron fod y rhan fwyaf o adolygiadau yn ymwneud ag ymyriadau a dargedwyd at boblogaethau difreintiedig ac nad oedd tegwch iechyd yn ffocws clir iddynt. Roedd pedwar adolygiad (33, 52, 53, 66, 67) yn archwilio ymyriadau a dargedwyd at y blynyddoedd cynnar a rhianta. Gwnaeth Morrison et al. (67) gynnwys astudiaethau o raglenni rhianta cyffredinol a rhai a dargedwyd. Roedd dwy astudiaeth o ymyriadau oedd yn defnyddio dull cyffredinol cymesur, ond ni nododd yr awduron unrhyw astudiaethau a adroddodd ar effeithiau gwahaniaethol ar gyfer grwpiau difreintiedig. Roedd dau adolygiad o'r un grŵp ymchwil (33, 66), yn cynnwys astudiaethau o raglenni a dargedwyd yn unig a chanfuwyd bod y dulliau hyn yn cael effeithiau cadarnhaol ar ganlyniadau rhianta. Gwnaeth Gardner et al. (52, 53) adolygu effeithiau gwahaniaethol y rhaglen Incredible Years yn ôl anfantais gymdeithasol. Mae'r dystiolaeth o 15 o dreialon yn awgrymu nad yw'r rhaglen yn cael unrhyw effeithiau ar degwch, a fynegwyd o'r safbwynt na wnaeth y rhaglen ehangu anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn problemau ymddygiad. Ar y cyfan, mae diffyg tystiolaeth am effeithiau rhaglenni rhianta ar degwch.

### *Hyrwyddo bwydo ar y fron*

Roedd dau adolygiad (50, 59) yn archwilio hybu bwydo ar y fron ac yn cynnwys astudiaethau o ymyriadau, gan gynnwys addysg iechyd a dulliau cymorth cymheiriaid a oedd yn targedu menywod SES isel. Canfu'r ddau adolygiad dystiolaeth y gallai dulliau addysg iechyd (yn seiliedig ar ddisbarthiadau anffurfiol, bach, seiliedig ar grwpiau) gael effeithiau cadarnhaol ar hybu bwydo ar y fron ymhlith menywod SES isel.

## Cyflogaeth ac amodau gwaith

Mae amodau gwaith a chyflogaeth yn benderfynyddion pwysig o ran iechyd ac anghydraddoldebau iechyd. Archwiliodd pedwar adolygiad ymbarél (16, 17, 22, 27) adolygiadau o newidiadau sefydliadol o fewn yr amgylchedd gwaith. Daeth adolygiad ymbarél gan Bambra et al. (16) i'r casgliad fod tystiolaeth 'betrus' i awgrymu bod gan ymyriadau sefydliadol yn y gweithle y potensial i effeithio ar degwch iechyd. Nododd yr adolygiad fod effeithiau cadarnhaol a negyddol newidiadau sefydliadol i'r amgylchedd gwaith seicogymdeithasol ar iechyd yn cael eu teimlo'n fwy gan grwpiau SES is. Ar lefel y adolygiad, archwiliodd chwe adolygiad (30-32, 48, 49, 60) newidiadau sefydliadol o fewn yr amgylchedd gwaith. Cafodd pump o'r chwech (30-32, 48, 49) eu cynnwys mewn dau o'r adolygiadau ymbarél gan Bambra et al. (16,781) Ar draws y pum adolygiad dim ond dwy astudiaeth sylfaenol a nododd effeithiau gwahaniaethol yn ôl SES. At hynny, daeth adolygiad gan Joyce et al. (60) i'r casgliad bod y dystiolaeth yn aneglur ynghylch effeithiau gweithio hyblyg ar degwch iechyd.

Tabl 3. Tabl tystiolaeth effeithiau: penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd

Maes gweithredu polisi	Cyfeiriadau		Tystiolaeth ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol	
	Adolygiadau ymbarél	Adolygiadau systematig		
<b>Gwasanaethau iechyd</b>	Diwygiadau sefydliadol ac ariannol	Bambra et al., 2014 (18)	Effeithiau amhendant neu negyddol ar degwch iechyd. Mae tystiolaeth ar drefniadaeth gwasanaethau yn awgrymu bod diwygiadau ar ffurf y farchnad yn cael effeithiau negyddol ar degwch iechyd.	
	Datganoli		Abimbola et al., 2019 (28)	Mae effeithiau datganoli ar lefel lywodraethu neu system ar degwch iechyd yn dibynnu ar berthnasoedd llorweddol a fertigol ar draws y gwahanol ganolfannau llywodraethu.
	Llywio a chymorth gan gymheiriaid	Bambra et al., 2010 (17)	Harris et al., 2015 (56); Nelson et al., 2020 (69); Kim et al., 2016 (61)	Gall llywio a chymorth gan gymheiriaid gael effeithiau cadarnhaol ar boblogaethau a dargedir. Mae potensial yn dibynnu ar y cyd-destun tegwch amgylchynol.
	Llythrennedd iechyd a gwneud penderfyniadau ar y cyd		Cheng et al., 2020 (43); Durand et al., 2014 (47); Stormacq et al., 2020 (78)	Gall llythrennedd iechyd ac ymyriadau gwneud penderfyniadau ar y cyd gael effeithiau cadarnhaol ar boblogaethau a dargedwyd. Gall llwyddiant fod yn ddibynnol ar gynnwys cydrannau gweithredol, megis teilwra.
<b>Diogelwch incwm a diogelu cymdeithasol</b>	Polisiâu'r wladwriaeth les		Brennenstuhl et al., 2012 (38)	Nid yw canfyddiadau ar degwch iechyd yn gyson â damcaniaeth y gyfundrefn les mai gwledydd â chyfundrefnau democrataidd cymdeithasol sydd â'r anghydraddoldebau iechyd isaf.
	Gwasanaethau cyngor lles wedi'u cydleoli mewn lleoliadau iechyd	Bambra et al., 2010 (17)	McGrath et al., 2021 (65)	Absenoldeb tystiolaeth.
	Amddiffyniad cymdeithasol (gan gynnwys arian parod a buddion eraill mewn gwaith a rhaglenni marchnad lafur gweithredol)	Bambra et al., 2010 (17); Hillier-Brown et al., 2019 (21); Naik et al., 2019 (24)	Pega et al., 2013 (75); O'Campo et al., 2015 (70); Lucas et al., 2008 (64); Simpson et al., 2021 (76); McGrath et al., 2021 (65)	Absenoldeb tystiolaeth.
<b>Amodau byw</b>	Tai ac amddifadedd tanwydd/ynni (targed)	Bambra et al., 2010 (17) Nelson et al., 2020 (69)	Thomson et al. (79); Ballesteros-Arjona et al., 2022 (29)	Gall gwelliannau i gyflwr tai gael effeithiau cadarnhaol ar boblogaethau targed.

Maes gweithredu polisi	Cyfeiriadau		Tystiolaeth ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol	
	Adolygiadau ymbarél	Adolygiadau systematig		
	Newidiadau i amgylchedd trefol ac adeiledig	Gibson et al., 2011 (20) McGowan et al., 2021 (23)	Hunter et al., 2019 (58); Buttazzoni et al., 2020 (41); Olstad et al., 2017 (74)	Effeithiau aneglur/amhendant ar degwch iechyd.
	Isadeiledd (llwybrau beicio a cherdded, campfeydd awyr agored)		Mulvaney et al., 2015 (68); Smith et al., 2017 (77)	Absenoldeb tystiolaeth.
	Trafnidiaeth – polisi	Cairns et al., 2015 (19)	Cleland et al., 2020 (44) Benmarhnia et al., 2014 (34) Hosford et al., 2021 (57)	Diffyg tystiolaeth ar gyfer cyfyngiadau/terfynau cyflymder. Effeithiau aneglur/amhendant ar degwch iechyd ar gyfer polisiau eraill.
	Dŵr a glanweithdra	Bambra et al., 2010 (17)		Absenoldeb tystiolaeth.
	Ansicrwydd bwyd	Bambra et al., 2010 (17)	Black et al., 2012 (35) McGrath et al., 2021 (65)	Gall rhaglenni cymhorthdal bwyd gael effeithiau cadarnhaol ar boblogaethau a dargedwyd.
Cyfalaf cymdeithasol a dynol	Addysg a dysgu ar draws cwrs bywyd	Bambra et al., 2010 (17)	Bonell et al., 2013a,b (36, 37) Finnie et al., 2019 (51); Wilson et al., 2011; Hahn et al., 2015 (55, 80) Ljungdahl & Bremberg, 2015 (63)	Absenoldeb tystiolaeth.
	Datblygiad plentyndod cynnar Addysg rhianta	Pierron et al., 2018 (25)	Morrison et al., 2014 (67) Gardner et al., 2017; Gardner et al., 2019 (52, 53) Molloy et al., 2021; Beatson et al., 2021 (33, 66)	Gall addysg rhianta gael effeithiau cadarnhaol ar boblogaethau a dargedwyd. Nid yw'r rhaglen Incredible Years yn cael unrhyw effeithiau ar degwch iechyd.
	Hyrwyddo bwydo ar y fron		Fairbank et al., 2000 (50) Ibanez et al., 2012 (59)	Gall dulliau addysg iechyd gael effeithiau cadarnhaol ar hybu bwydo ar y fron ymhlith poblogaethau a dargedwyd.
	Gwella cyfalaf cymdeithasol unigolion a chymunedau		Brunton et al., 2015 (39); Cyril et al., 2015 (45); O'Mara-Eves et al., 2013 (72); O'Mara-Eves et al., 2015 (73)	Gall ymgysylltiad cymunedol gael effeithiau cadarnhaol ar boblogaethau a dargedwyd.
Cyflogaeth ac amodau gwaith	Newidiadau sefydliadol o fewn yr amgylchedd gwaith	Bambra et al., 2009 (16); Bambra et al., 2010 (17)	Bambra et al., 2007 (30); Bambra et al., 2008a (31); Bambra et al., 2008b (32); Egan et al., 2007a (48) Joyce et al., 2010 (60)	Effeithiau aneglur/amhendant ar newidiadau sefydliadol i'r amgylchedd gwaith seicogymdeithasol.
	Preifateiddio cyfleustodau cyhoeddus a diwydiannau		Egan et al., 2007b (49)	Absenoldeb tystiolaeth.

## 5 Penderfynyddion ymddygiadol iechyd

Archwiliodd wyth adolygiad ymbarél (22, 24, 27, 82-86) a 79 adolygiad (74, 87-164) ymyriadau, polisiau a rhaglenni a dargedwyd at benderfynyddion ymddygiadol iechyd (Tabl 4).

Archwiliodd pedwar adolygiad ymbarél (27, 83, 85, 86) adolygiadau o ymyriadau a dargedwyd at ymddygiadau iechyd lluosog; archwiliodd pump (22, 24, 27, 83, 84) adolygiadau o ymyriadau mewn perthynas â rheoli tybaco a rhoi'r gorau i ysmegu; archwiliodd tri (22, 27, 83) adolygiadau o ymyriadau mewn perthynas â phwysau, maeth a gweithgarwch corfforol; ac archwiliodd un (82) bolisiau treth/prisio alcohol. Roedd yr adolygiadau a gynhwyswyd yn archwilio ystod o ddulliau ar lefel poblogaeth, cymunedol, sefydliadol ac unigol. Roedd llawer o adolygiadau yn cynnwys astudiaethau o ymyriadau a dargedwyd a rhai chyffredinol, ond nid oedd hyn bob amser yn cael ei adrodd yn glir. Roedd yr ymddygiadau iechyd unigol a gafodd sylw ar draws yr adolygiadau fel a ganlyn:

- Pwysau, maeth neu weithgarwch corfforol (PMWC; n=32)
- Rheoli tybaco ac atal ysmegu (n=19)
- Ymddygiadau iechyd lluosog (n=9)
- Nifer sy'n derbyn gwasanaeth (n=6), ym meysydd sgrinio canser (n=2), brechu neu imiwneiddio (n=4) ac iechyd y geg (n=1)
- Atal anafiadau (n=4)
- Iechyd y geg (n=3)
- Alcohol (n=1)
- Rheoli clefydau cronig (n=2)
- Iechyd meddwl (n=2)
- Iechyd mamau (n=1)

Roedd yr adolygiadau'n archwilio canlyniadau iechyd ymddygiadol a oedd yn berthnasol i'r ymyriad, y polisi neu'r rhaglen dan sylw. Ceir manylion llawn yn y tablau data cryno yn Atodiad 3.

Tabl 4. Crynodeb o adolygiadau o ymyriadau, polisiau a rhaglenni: penderfynyddion ymddygiadol iechyd

Cyfeirnod	Math o adolygiad	Ymddygiad(au) iechyd	Cyffredinol neu targedwyd?	Maes gweithredu polisi
Anselma et al., 2020 (87)	Adolygiad	PMWC	Targedwyd	5
Attwood et al., 2016 (88)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	5
Baker et al., 2015 (141)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	5
Bambra et al., 2015 (32)	Adolygiad	PMWC	Y ddau	5
Beauchamp et al., 2010 (91)	Adolygiad	Tybaco	Cyffredinol	1, 5
Beauchamp et al., 2014 (142)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	5
Behbod et al., 2018 (143)	Adolygiad	Tybaco	Cyffredinol	5
Black et al., 2017 (92)	Adolygiad	PMWC	Targedwyd	5
Boland et al., 2018 (93)	Adolygiad	Tybaco	Targedwyd	5

Cyfeirnod	Math o adolygiad	Ymddygiad(au) iechyd	Cyffredinol neu targedwyd?	Maes gweithredu polisi
Brown et al., 2019 (144)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	5
Brown et al., 2014a (94)	Adolygiad	Tybaco	Cyffredinol	3, 5
Brown et al., 2014b (95)	Adolygiad	Tybaco	Cyffredinol	1, 2, 3, 5
Brown et al., 2014c (96)	Adolygiad	Tybaco	Cyffredinol	1, 2, 3, 5
Brown et al., 2016 (97)	Adolygiad	Lluosog	Cyffredinol	5
Bryant et al., 2011 (98)	Adolygiad	Tybaco	Targedwyd	5
Bull et al., 2018 (99, 164)	Adolygiad	Lluosog	Targedwyd	5
Cairns et al., 2015b (100)	Adolygiad	PMWC	Y ddau	5
Carr et al., 2011 (101)	Adolygiad	Clefydau cronig	Cyffredinol	5
Chamberlain et al., 2017 (145)	Adolygiad	Tybaco	Cyffredinol	5
Crocker-Buque 2017 (146)	Adolygiad	Derbyn gwasanaeth	Y ddau	5
De Bourdeaudhuij et al., 2011 (147)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	5
De Sa & Lock 2008 (148)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	5
De Silva et al., 2016 (149)	Adolygiad	Iechyd y geg	Cyffredinol	5
Dowswell & Towner 2002 (102)	Adolygiad	Anaf	Targedwyd	5
Frazer et al., 2016 (150)	Adolygiad	Tybaco	Cyffredinol	2
Gardner et al., 2013 (103)	Adolygiad	Derbyn gwasanaeth	Targedwyd	5
Gates et al., 2021 (104)	Adolygiad	Derbyn gwasanaeth	Y ddau	5
Guindon et al., 2022 (82)	Ymbarél	Alcohol	Cyffredinol	1
Harbers et al., 2020 (105)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	4
Hardman et al., 2020 (106)	Adolygiad	Clefydau cronig	Cyffredinol	5
Hendry et al., 2015 (151)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	2
Hill et al., 2014 (107)	Adolygiad	Tybaco	Y ddau	1, 2, 3, 5
Hillier-Brown et al., 2017 (152)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	4
Hillier-Brown et al., 2014a (108)	Adolygiad	PMWC	Y ddau	5
Hillier-Brown et al., 2014b (109)	Adolygiad	PMWC	Y ddau	5
Hollands et al., 2015 (153)	Adolygiad	Lluosog	Cyffredinol	4
Iheozor-Ejiofor et al., 2015 (154)	Adolygiad	Iechyd y geg	Cyffredinol	2
Jackson et al., 2010 (160)	Adolygiad	Alcohol	Cyffredinol	1
Kader et al., 2015 (155)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	5
Kavanagh et al., 2009 (110)	Adolygiad	Iechyd meddwl	Cyffredinol	5
Kendrick et al., 2008 (111)	Adolygiad	Anaf	Cyffredinol	5
Kendrick et al., 2012 (156)	Adolygiad	Anaf	Cyffredinol	5
Kock et al., 2019 (112)	Adolygiad	Tybaco	Y ddau	5
Kornet-van der Aa et al., 2017 (163)	Adolygiad	PMWC	Targedwyd	5
Lehne & Bolte 2017 (113)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	5
Lorenc et al., 2013 (22)	Ymbarél	PMWC	Cyffredinol	1, 2, 3
Love et al., 2019 (114, 115)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	5
Machado et al., 2021 (116)	Adolygiad	Derbyn gwasanaeth	Targedwyd	5

Cyfeirnod	Math o adolygiad	Ymddygiad(au) iechyd	Cyffredinol neu targedwyd?	Maes gweithredu polisi
Macintyre et al., 2020 (83)	Ymbarél	Lluosog	Y ddau	Aneglur
Main et al., 2008 (84)	Ymbarél	Tybaco	Cyffredinol	1, 2
McGill et al., 2015 (117)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	1, 2, 3
McLaren et al., 2016 (90, 118)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	2
Michie et al., 2009 (119)	Adolygiad	Lluosog	Targedwyd	5
Moodie et al., 2012 (162)	Adolygiad	Tybaco	Cyffredinol	2
Moore et al., 2015 (120)	Adolygiad	Lluosog	Cyffredinol	5
Murray et al., 2009 (121)	Adolygiad	Tybaco	Targedwyd	5
Naik et al., 2019 (24)	Ymbarél	Lluosog	Cyffredinol	Aneglur
Nanninga et al., 2019 (122)	Adolygiad	Tybaco	Cyffredinol	2
Niederdeppe et al., 2008 (157)	Adolygiad	Tybaco	Y ddau	3
Oldroyd et al., 2008 (123)	Adolygiad	PMWC	Y ddau	5
Olstad et al., 2016 (74)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	1, 3, 4
Olstad et al., 2017 (124)	Adolygiad	PMWC	Targedwyd	5
Pastor & Tur, 2020 (125)	Adolygiad	PMWC	Targedwyd	5
Pearson et al., 2012 (126)	Adolygiad	Anaf	Targedwyd	5
Raison & Harris, 2019 (127)	Adolygiad	Derbyn gwasanaeth	Y ddau	5
Rice et al., 2009 (161)	Adolygiad	Tybaco	Cyffredinol	1
Saad et al., 2021 (128)	Adolygiad	Iechyd mamau	Cyffredinol	5
Schuz et al., 2021 (129)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	4
Secker-Walker et al., 2002 (158)	Adolygiad	Tybaco	Cyffredinol	5
Shen et al., 2021 (130)	Adolygiad	Iechyd y geg	Cyffredinol	2, 5
Smith et al., 2020 (131)	Adolygiad	Tybaco	Cyffredinol	1, 2, 3, 5
Spadea et al., 2010 (132)	Adolygiad	Derbyn gwasanaeth	Targedwyd	5
Sumar & McClaren, 2011 (159)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	2, 3
Thomas et al., 2018 (133)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	3
Thomas et al., 2008 (134)	Adolygiad	Tybaco	Cyffredinol	1, 2, 3, 5
Thomson et al., 2018 (27)	Ymbarél	Lluosog		1
Thomson et al., 2019 (85)	Ymbarél	Lluosog	Cyffredinol	5
Tinner et al., 2018 (135)	Adolygiad	Lluosog	Cyffredinol	1, 2, 5
Turnbull et al., 2020 (136)	Adolygiad	Clefydau cronig	Cyffredinol	5
Van De Ven et al., 2020 (137)	Adolygiad	Lluosog	Cyffredinol	5
Venturelli et al., 2019 (138)	Cwmpasu	PMWC	Cyffredinol	5
Welch et al., 2016 (86)	Ymbarél	Lluosog	Y ddau	3
Welsh et al., 2015 (139)	Cwmpasu	Iechyd meddwl	Y ddau	5
Western et al., 2021 (140)	Adolygiad	PMWC	Cyffredinol	5
Allwedd i fathau o adolygiadau: Ymbarél = adolygiad ymbarél; Adolygiad = adolygiad systematig neu adolygiad 'arall'; Cwmpasu = adolygiad cwmpasu				
Allwedd i ymddygiad(au) iechyd: PMWC = Pwysau, maethiad neu weithgarwch corfforol				
Allwedd i feysydd gweithredu polisi: 1 = Cyllidol; 2 = Rheoleiddio a deddfwriaeth; 3 = Cyfathrebu/marchnata; 4 = Cynllunio amgylcheddol/cymdeithasol; 5 = Darpariaeth gwasanaeth				

## Mesurau cyllidol (pris a threth)

Archwiliodd tri adolygiad ymbarél (22, 27, 82) ac un ar ddeg adolygiad (95, 96, 107, 117, 124, 131, 134, 138, 142, 160, 161) effeithiau mesurau cyllidol, gan gynnwys defnyddio trethiant, rhyddhad treth a phrisiau, ar degwch iechyd. Adroddwyd tystiolaeth gyson ar draws pedwar adolygiad (95, 96, 107, 131) ac un adolygiad ymbarél (27) fod mesurau cyllidol ar gyfer rheoli tybaco yn cael effeithiau cadarnhaol ar degwch iechyd. Canfu un adolygiad ymbarél (27) a thri adolygiad (117, 124, 138) a archwiliodd gynnydd mewn prisiau/treth ar fwydydd dwysedd ynni uchel a chymorthdaliadau ar ffrwythau a llysiau nad oedd mesurau cyllidol yn cael unrhyw effaith nac effaith gadarnhaol ar degwch iechyd. Roedd tystiolaeth lefel adolygu ar gyfer effeithiau polisïau prisio alcohol a threthiant ar degwch iechyd yn brin gan mai ychydig o adolygiadau sydd wedi archwilio gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol mewn ymatebolrwydd prisiau (82, 160).

## Rheoleiddio a deddfwriaeth

Er bod gan yr Olwyn Newid Ymddygiad categorïau polisi ar wahân ar gyfer rheoleiddio a deddfwriaeth, canfuom fod y termau hyn yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol ar draws y categorïau ymyrraeth a archwiliwyd gennym ac felly cawsant eu cyfuno. Cyfeiria Michie a West (172) at *deddfwriaeth* fel “defnyddio deddfau, is-ddeddfau ac offerynnau deddfwriaethol tebyg” a *rheoleiddio* fel “datblygu a gweithredu rheolau”.

### Amgylcheddau di-fwg (deddfwriaethol a gwirfoddol)

Archwiliodd un adolygiad ymbarél (27) ac wyth adolygiad (95, 96, 107, 122, 131, 134, 150, 162) ymyriadau ar lefel polisi gan gynnwys polisïau/deddfwriaeth ddi-fwg neu reoleiddio mewn amrywiaeth o leoliadau ac amgylcheddau. Roedd astudiaethau a oedd yn archwilio polisïau di-fwg a rheolaethau ar hysbysebu/marchnata a mynediad yn gysylltiedig ag effeithiau negyddol ar degwch iechyd (131). Fodd bynnag, roedd Nanninga et al. (122) yn nodi nad oedd ymyriadau di-fwg yn cael unrhyw effeithiau cyffredinol ar degwch iechyd ar amlygiad plant i fwg ail-law yn y cartref. Gwnaeth Brown et al. (96) fod gwahaniaethau mewn effeithiau ar degwch iechyd rhwng deddfwriaeth ddi-fwg gynhwysfawr genedlaethol o gymharu â pholisïau gwirfoddol, gyda'r cyntaf yn cael effeithiau cadarnhaol.

### Cyfyngiadau ar hysbysebu, hyrwyddo, marchnata a mynediad

Archwiliodd un adolygiad ymbarél (27) a saith adolygiad (95, 96, 107, 117, 131, 134, 162) gyfyngiadau ar hysbysebu/marchnata/hyrwyddo a mynediad drwy reolaethau a gwaharddiadau. Ni wnaeth Gilleece et al. (117) nodi unrhyw astudiaethau ym maes bwyta'n iach ac archwiliodd gweddill yr adolygiadau ymyriadau rheoli tybaco. Ar draws tri adolygiad (95, 96, 107), roedd y dystiolaeth ar reolaethau ar hysbysebu, hyrwyddo a marchnata tybaco yn gymysg ond yn bennaf yn dangos tystiolaeth o ddim effeithiau ar degwch iechyd. Fodd bynnag, barnodd yr adolygiad diweddaraf (131) fod y dystiolaeth bellach yn cael ei phwysoli tuag at effaith negyddol ar degwch iechyd. Ni lwyddodd un adolygiad systematig arall (162) i ddod i unrhyw gasgliadau am effeithiau pecynnu tybaco plaen ar degwch iechyd.

Ailfformiwleiddio neu atgyfnerthu cynnyrch (gan gynnwys fflworeiddio dŵr) Edrychodd pum adolygiad (90, 117, 118, 151, 159) ar ailfformiwleiddio cynhyrchion bwyd. Archwiliodd yr adolygiadau hyn bolisi atgyfnerthu ar asid ffolig (159), ailfformiwleiddio cynhyrchion sy'n cynnwys halen (90, 117, 118) a chyfyngiadau ar asidau traws-frasterog artiffisial (151), yn y drefn honno. Nododd Sumar a McLaren (159) dystiolaeth fod polisi atgyfnerthu gorfodol ar asid ffolig yn llai tebygol nag ymgyrchoedd gwybodaeth o gael effaith negyddol ar degwch iechyd ond roedd cyfeiriad cyffredinol effeithiau polisi atgyfnerthu ar degwch iechyd yn aneglur. Roedd diffyg data hefyd ar effeithiau tegwch iechyd ailfformiwleiddio cynhyrchion sy'n cynnwys halen a chyfyngiadau ar asidau traws-frasterog artiffisial. Nododd un adolygiad ymbarél (17) adolygiad ar fflworideiddio dŵr ond ni adroddodd ar yr effeithiau tegwch iechyd. Roedd gan ddau adolygiad pellach (130, 154), a archwiliodd fflworideiddio dŵr, amcanion eilaidd i archwilio effeithiau ar degwch iechyd ond nid oeddent yn gallu dod i gasgliadau.

## Cyfathrebu a marchnata

Archwiliodd deg adolygiad ymgyrchoedd cyfryngau torfol: chwe adolygiad o ymgyrchoedd yn targedu ymddygiadau ysmegu (94-96, 107, 131, 157) a phedwar adolygiad o ymgyrchoedd yn targedu pwysau, maeth, a/neu weithgarwch corfforol (117, 124, 133, 159). Roedd yr effeithiau cyffredinol ar degwch iechyd ar draws y ddau gategori ymddygiad yn gymysg ac yn anghyson ar draws yr astudiaethau a gynhwyswyd.

## Cynllunio amgylcheddol a chymdeithasol

Mae'r maes polisi cynllunio amgylcheddol a chymdeithasol yn yr Olwyn Newid Ymddygiad yn cyfeirio at bolisïau sy'n canolbwyntio ar newid yr amgylchedd ffisegol a chymdeithasol (172). Archwiliodd pum adolygiad (105, 124, 129, 152, 153) ymyriadau yn ymwneud â 'phensaernïaeth dewis' (neu 'ysgogiadau') mewn amgylcheddau bwyd. Mae pensaernïaeth dewis wedi'i chymhwyso i amrywiaeth o fathau o ymyriadau, ond gyda ffocws craidd ar ymyriadau "sy'n cynnwys newid amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol ar raddfa fach, neu ficro-amgylcheddau" (173). Roedd y rhan fwyaf o'r ymyriadau a archwiliwyd ar draws yr adolygiadau a gynhwyswyd yn ymwneud ag ymyriadau labelu maeth a chaloriau. Nid oedd yr effeithiau ar degwch iechyd yn gyson ar draws yr astudiaethau a gynhwyswyd, gyda rhai yn dangos effeithiau negyddol (129).

## Darpariaeth gwasanaeth

Ymyrraeth hybu iechyd yn yr ysgol ac yn y gymuned ar gyfer plant a phobl ifanc Archwiliodd ugain adolygiad effeithiau ymyriadau hybu iechyd cyn-ysgol, ysgol neu gymunedol ar blant a phobl ifanc. Roedd pum adolygiad (91, 108, 124, 138, 144) yn canolbwyntio ar atal gordewdra, dau ar weithgarwch corfforol (114, 147), pedwar ar fwyta'n iach (92, 117, 123, 148), dau ar iechyd meddwl (110, 139), dau ar ymddygiadau iechyd y glasoed lluosog (120, 135), dau ar iechyd y geg (130, 149), a dau ar reoli tybaco (95, 143). Roedd cymysgedd o ymyriadau cyffredinol ac a dargedwyd wedi'u cynnwys ar draws yr adolygiadau, ond nid oedd hyn bob amser yn cael ei ddisgrifio'n glir ar lefel yr adolygiad.



Roedd pedwar adolygiad pellach (74, 87, 125, 163) yn archwilio ymyriadau atal gordewdra/bwyta'n iach a dargedwyd at blant a phobl ifanc o boblogaethau SES isel.

Roedd y canfyddiadau'n aneglur ac ar y cyfan yn amhendant ar draws yr adolygiadau. Roedd gan adolygiad gan Moore et al. (120) ffocws penodol ar ymyriadau cyffredinol yn yr ysgol ar gyfer ysmegu, alcohol, diet a gweithgarwch corfforol, a nododd 20 astudiaeth a nododd effeithiolrwydd gwahaniaethol yn ôl SES. Roedd yr effeithiau'n amrywio yn ôl y mathau o gydrannau ymyriadau dan sylw. Dangosodd astudiaethau o ymyriadau a oedd yn cynnwys cydrannau addysgol yn unig neu ar y cyd â newid amgylcheddol neu gyfranogiad teulu effaith negyddol ar degwch iechyd a dangosodd astudiaethau o ymyriadau a oedd yn cynnwys cydrannau newid amgylcheddol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd ag addysg, effaith gadarnhaol ar degwch iechyd. Nododd Hillier-Brown et al. (108) fod yr elfennau ymyrraeth penodol sydd fwyaf tebygol o gael effaith gadarnhaol ar degwch iechyd sy'n ymwneud â gordewdra yn parhau i fod yn aneglur.

Archwiliodd dau adolygiad pellach (130, 149) ymyriadau iechyd y geg ar gyfer plant. Roedd gan adolygiad Cochrane o hybu iechyd y geg plant yn y gymuned (149) amcanion eilaidd i archwilio'r effeithiau ar degwch iechyd ond nid oedd yn bosibl dod i gasgliadau. Roedd adolygiad diweddar gan Shen et al. (130) yn cynnwys 13 astudiaeth yn ymdrin â hybu iechyd y geg a fflworidadau argroenol. Roedd ymyriadau poblogaeth gyfan yn dangos yr effaith gadarnhaol fwyaf cyson ar degwch iechyd yn ymwneud â phydredd dannedd.

Archwiliodd pedwar adolygiad ymyriadau hybu iechyd ar gyfer atal anafiadau anfwriadol (102, 111, 126, 156). Gall anafiadau anfwriadol yn y cartref gael eu targedu trwy ymyriadau diogelwch yn y cartref, a archwiliwyd mewn dau adolygiad cysylltiedig gan Kendrick et al. (111, 156). Er bod yr adolygiad gan Kendrick et al. (111) yn archwilio a oedd effeithiau'r astudiaethau a gynhwyswyd yn amrywio yn ôl grŵp cymdeithasol, ni adroddwyd yn glir ar y canfyddiadau, ac nid oedd yn glir pa astudiaethau oedd wedi adrodd am effeithiau yn ôl grŵp cymdeithasol. Roedd adolygiad Cochrane gan Kendrick et al. (156) yn gwerthuso effaith ymyriadau diogelwch yn y cartref yn ôl grŵp cymdeithasol ar draws pum cydamrywiad: oedran y plentyn, rhyw, grŵp ethnig, teulu un rhiant, yn byw mewn llety ar rent ac o leiaf un rhiant heb fod mewn cyflogaeth am dâl. Canfu'r adolygiad nad oedd tystiolaeth yn gyffredinol o effeithiau gwahaniaethol ar draws y ffactorau hyn. Canfu dau adolygiad pellach (102, 126) rai effeithiau cadarnhaol ymyriadau a oedd wedi targedu plant unigol a rhieni o boblogaethau SES isel, ond barnwyd bod ansawdd cyffredinol y dystiolaeth o ansawdd isel. Yn gyffredinol, roedd diffyg tystiolaeth ar effeithiau ymyriadau atal anafiadau ar degwch iechyd.

### Ymyriadau hybu iechyd yn y gymuned ar gyfer oedolion a/neu'r boblogaeth gyffredinol

Archwiliodd saith adolygiad effeithiau ymyriadau hybu iechyd yn y gymuned ar gyfer oedolion a/neu'r boblogaeth gyffredinol Roedd yr adolygiadau a gynhwyswyd yn archwilio ymyriadau hybu iechyd ar gyfer gweithgarwch corfforol (141) atal gordewdra (91, 109), bwyta'n iach (117), a rheoli tybaco (96, 107). Roedd canfyddiadau ar lefel yr adolygiad yn dangos bod y dystiolaeth yn gyffredinol amhendant ar draws yr astudiaethau a wnaed yn y

lleoliadau hyn. Cafodd adolygiad systematig cynhwysfawr gan Hillier-Brown et al. (89, 109) dystiolaeth ar gyfer effeithiau cadarnhaol tymor byr o ymyriadau colli pwysau yn y gymuned ar gyfer grwpiau SES isel ac ar draws y graddiant SES.

Defnyddiodd tri adolygiad ddamcaniaeth newid ymddygiad i archwilio effeithiau ymyriadau wedi'u targedu at boblogaethau SES isel i leihau ysmegu neu gynyddu gweithgarwch corfforol a/neu fwyta'n iach (99, 119, 164). Nododd awduron y ddau adolygiad dystiolaeth bod ymyriadau newid ymddygiad yn cael effeithiau cadarnhaol a bod rhai technegau newid ymddygiad yn fwy effeithiol. Nododd adolygiad gan Western et al. (140) o ymyriadau sy'n defnyddio technolegau digidol i gynyddu gweithgarwch corfforol effaith negyddol bosibl ar degwch iechyd. Canfuwyd bod ymyriadau newid ymddygiad digidol wedi'u hanelu at gynyddu gweithgarwch corfforol yn gwella canlyniadau i bobl â SES uchel yn ffafriol.

### Hybu iechyd yn y gweithle

Archwiliodd chwe adolygiad effeithiau ymyriadau hybu iechyd yn y gweithle, gan gynnwys ymyriadau sy'n canolbwyntio ar atal gordewdra (91, 100, 109), rheoli tybaco (96), bwyta'n iach (117) ac ymddygiadau iechyd lluosog (137). Roedd gorgyffwrdd rhwng yr adolygiadau yn yr astudiaethau a gynhwyswyd ac yn gyffredinol, roedd dystiolaeth i awgrymu y gallai hybu iechyd yn y gweithle gael effaith gadarnhaol ar degwch iechyd (100, 117, 137).

### Cynyddu nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaeth a'r nifer sy'n mynychu

Archwiliodd dau adolygiad (103, 132) ymyriadau i gynyddu'r nifer sy'n derbyn ar sgrinio cancer ymhlith menywod SES isel. Gwnaeth Gardner et al. (103) archwilio ymyriadau i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar famograffeg, gan ganfod bod dulliau gweithredu yn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfer menywod SES isel. Gwnaeth Spadea et al. (132) gynnwys astudiaethau o ymyriadau cyffredinol ac a dargedwyd ar gyfer gwella presenoldeb mewn sgrinio cancer benywaidd a chanfuwyd y gellid cynyddu presenoldeb mewn sgrinio cancer gan fenywod o grwpiau SES isel gyda rhaglenni sgrinio wedi'u trefnu wedi'u teilwra i'w hanghenion. Daeth y ddau adolygiad i'r casgliad, fodd bynnag, nad oedd yr effeithiau ar degwch iechyd yn glir.

Archwiliodd dau adolygiad (104, 146) degwch iechyd yn ymwneud â brechu. Gwnaeth Crocker-Buque et al. (146) archwilio ymyriadau a oedd â'r nod o gynyddu'r nifer sy'n derbyn brechlyn. Roedd ymyriadau cyffredinol ac a dargedwyd wedi'u cynnwys ond nid oedd yn glir pa astudiaethau a nododd effeithiau gwahaniaethol yn ôl SES. Gwnaeth Gates et al. (104) gynnwys ymyriadau wedi'u hanelu at leihau anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig â brechu trwy gynyddu mynediad ond dim ond dwy astudiaeth a nodwyd. Nododd awduron y ddau adolygiad fod diffyg astudiaethau a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar degwch iechyd. Archwiliodd un adolygiad pellach (116) ymyriadau i gynyddu'r nifer sy'n cael eu himiweiddio yn ystod plentyndod ymhlith poblogaethau SES isel. Canfu'r adolygiad fod ymyriadau aml-gydran yn cael effeithiau cadarnhaol ar degwch iechyd sy'n gysylltiedig â chwmpas imiweiddio. Archwiliodd un adolygiad (127) effeithiau ymyriadau ar anghydraddoldebau SES o ran defnyddio gwasanaethau deintyddol, ond nodwyd diffyg dystiolaeth.

## Ymyriadau atal eilaidd

### *Gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu*

Archwiliodd deg adolygiad (93-96, 98, 107, 112, 121, 131, 142) effeithiau cymorth rhoi'r gorau i ysmegu ar degwch iechyd. Roedd ymyriadau naill ai'n cyfuno ffarmacotherapi â chymorth ymddygiadol neu'n darparu cymorth ymddygiadol neu ffarmacolegol yn unig. Ar draws yr adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar degwch, roedd awduron yn gwahaniaethu rhwng cymorth rhoi'r gorau iddi ar lefel y boblogaeth ac ar lefel unigol, gydag ymyriadau ar lefel poblogaeth wedi'u diffinio fel y rhai 'a gymhwyswyd i boblogaethau, grwpiau, ardaloedd, awdurdodaethau neu sefydliadau' wedyn Fayter et al. (174). Er bod un adolygiad (107) wedi nodi bod gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu ar lefel y boblogaeth yn debygol o gael effaith negyddol ar degwch iechyd, mae canfyddiadau dau adolygiad (96, 131) yn awgrymu bod consensws bod cefnogaeth ar lefel y boblogaeth i roi'r gorau i ysmegu yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar degwch iechyd.

Archwiliodd tri adolygiad (93, 98, 112) effeithiau ymyriadau ymddygiadol rhoi'r gorau i ysmegu a dargedwyd at grwpiau difreintiedig ac archwiliodd un adolygiad (145) ymyriadau ymddygiadol ar gyfer cefnogi menywod i roi'r gorau i ysmegu yn ystod beichiogrwydd. Cafodd Bryant et al. (98) dystiolaeth addawol ar gyfer dulliau a dargedwyd gyda rhai grwpiau difreintiedig, gan gynnwys ysmygwyr incwm isel, ond barnwyd bod y canfyddiadau cyffredinol yn anghyson. Canfu adolygiad mwy diweddar (112) dystiolaeth gyson o effaith gadarnhaol ymyriadau ymddygiadol ar lefel unigol a dargedwyd at grwpiau difreintiedig. Fodd bynnag, ni chanfuwyd bod ymyriadau ymddygiadol wedi'u teilwra yn fwy effeithiol nag ymyriadau heb eu teilwra (112). Gwnaeth Boland et al. (93) amlygu prinder ymchwil ymyrraeth o ansawdd uchel yn seiliedig ar dechnoleg sydd wedi'i anelu at ysmygwyr difreintiedig. Cafodd Chamberlain et al. (145) yn gyffredinol nad oedd ymyriadau unigol a ddarparwyd yn ystod beichiogrwydd yn cael unrhyw effaith ar degwch iechyd. Mae un adolygiad pellach, Murray et al. (121) wedi canfod tystiolaeth gymysg ar gyfer effeithiau dulliau a oedd yn anelu at nodi a recriwtio ysmygwyr dan anfantais i wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu, a/neu wella mynediad at y gwasanaethau hyn.

### *Ymyriadau lefel unigol yn targedu pwysau, maeth a gweithgarwch corfforol*

Archwiliodd naw adolygiad (88, 91, 108, 109, 113, 117, 123, 138, 144) raglenni triniaeth atal eilaidd ar gyfer unigolion, teuluoedd, neu grwpiau sy'n canolbwyntio ar blant, teuluoedd neu oedolion dros bwysau neu'n ordew.

Archwiliodd dau adolygiad systematig gan Hillier-Brown et al. (89, 108, 109) effeithiau ymyriadau ar lefel unigol gyda'r nod o leihau gordewdra mewn plant ac oedolion. Ymhlith oedolion roedd tystiolaeth bod rhaglenni colli pwysau wedi'u teilwra a ddarperir gan ofal sylfaenol a dargedwyd at fenywod incwm isel yn effeithiol. Gan dynnu ar gorff gwahanol o lenyddiaeth, gwnaeth mae McGill et al. (117) nodi bod cwnsela dietegol ar lefel unigol ymhlith y boblogaeth gyffredinol yn cael effeithiau negyddol ar degwch iechyd. Gwnaeth Attwood et al. (88) archwilio ymyriadau gweithgarwch corfforol seiliedig ar ofal sylfaenol ond daeth i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth i ddod i gasgliadau am yr effeithiau ar degwch iechyd.

Nododd tri adolygiad pellach (97, 101, 128) ddiffyg data ar degwch iechyd. Gwnaeth Brown et al. (97) archwilio ymyriadau hybu iechyd ar gyfer ysmegu, alcohol a rheoli pwysau a ddarperir mewn lleoliadau fferylliaeth gymunedol, archwiliodd Carr et al. (101) gynghorwyr ffordd o fyw cysylltiedig ag iechyd, a bu Saad et al. (128) yn archwilio ymyriadau symudol sy'n targedu anhwylderau meddwl cyffredin a straen ymhlith menywod beichiog.

### Rheoli cyflyrau cronig

Archwiliodd dau adolygiad (106, 136) ymyriadau ar gyfer hunanreoli cyflyrau cronig. Prin oedd y dystiolaeth o 7 astudiaeth a gynhwyswyd yn yr adolygiad gan Hardman et al. (106) i awgrymu y gallai SES effeithio ar ganlyniadau ymyriadau cymorth hunanreoli. Gwnaeth Turnbull et al. (136) adrodd fod tystiolaeth gymysg o effeithiau gwahaniaethol ar gyfer ymyriadau hunanofal ar y we. Daeth y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar yr effeithiau ar degwch iechyd o nifer fach o astudiaethau.

Tabl 5. Tabl tystiolaeth effeithiau: penderfynyddion ymddygiadol iechyd

Maes gweithredu polisi	Tystiolaeth gan		Tystiolaeth ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol	
	Adolygiadau ymbarél	Adolygiadau systematig		
Cyllidol (pris/treth)	Cynnydd mewn prisiau/treth tybaco	<p>Lorenc et al., 2013 (22); Thomson et al., 2018 (27)</p>	<p>Beauchamp et al. 2014 (142); Brown et al. 2014b (95); Brown et al. 2014c (96); Hill et al. 2014 (107); Smith et al. 2020 (131); Rice et al 2009 (161); Thomas et al. 2008 (134)</p>	Tystiolaeth gyson o effeithiau cadarnhaol ar degwch iechyd.
	Cynnydd mewn prisiau/treth ar fwydydd dwysedd ynni uchel a chymorthdaliadau ar ffrwythau a llysiau	<p>Thomson et al., 2018 (27)</p>	<p>McGill et al. 2015 (117); Olstad et al. 2016 (74); Venturelli et al. 2019 (138)</p>	Tystiolaeth gyson o effeithiau cadarnhaol neu ddim effeithiau o gwbl ar degwch iechyd.
	Rheolaethau ar bris alcohol	<p>Thomson et al., 2018 (27)</p>	<p>Jackson et al., 2010 (82)</p>	Absenoldeb tystiolaeth.
Rheoleiddio a deddfwriaeth	Amgylcheddau di-fwg (deddfwriaethol a gwirfoddol)	<p>Thomson et al., 2018 (27)</p>	<p>Brown et al. 2014b (95); Brown et al. 2014c (96); Frazer et al 2016 (150); Hill et al. 2014 (107); Nanninga et al. 2019 (122); Smith et al. 2020 (131); Thomas et al. 2008 (134)</p>	Mae effeithiau negyddol ar degwch iechyd yn dominyddu astudiaethau o bolisiau di-fwg gwirfoddol, rhanbarthol a rhannol. Mae tystiolaeth o bolisiau mwy cynhwysfawr ar lefel gwladol/gwladwriaeth yn tueddu at effeithiau cadarnhaol ar degwch iechyd.
	Rheolaethau, gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar hysbysebu, hyrwyddo, a marchnata a mynediad	<p>Thomson et al., 2018 (27)</p>	<p>Brown et al. 2014b (95); Brown et al. 2014c (96); Hill et al. 2014 (107); Moodie et al 2012 (162); Smith et al. 2020 (131); Thomas et al. 2008 (134); McGill et al. 2015 (117)</p>	Cymysg ond dim effeithiau ar degwch iechyd yn bennaf mewn adolygiadau cynharach. Roedd tystiolaeth fwy diweddar yn canolbwyntio ar effaith negyddol ar degwch iechyd.
	Ailfformiwleiddio ac atgyfnerthu cynnyrch		<p>McGill et al., 2015 (117); Sumar &amp; McClaren, 2011 (159)</p>	Absenoldeb tystiolaeth.
	Fflworeiddio artiffisial o ddŵr yfed		<p>Ihezor-Ejofofor et al 2015 (154); Shen et al. 2021 (130)</p>	Absenoldeb tystiolaeth.
Cyathrebu a marchnata	Ymgyrchoedd ysmegu yn y cyfryngau torfol a rhybuddion iechyd		<p>Brown et al. 2014a (94); Brown et al. 2014b (95); Brown et al. 2014c (96); Hill et</p>	Effeithiau aneglur/amhendant ar degwch iechyd.

Maes gweithredu polisi	Tystiolaeth gan		Tystiolaeth ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol
	Adolygiadau ymbarél	Adolygiadau systematig	
			al. 2014 (107); Niederdeppe et al 2008 (157); Smith et al. 2020 (131)
	Ymgyrchoedd gwybodaeth iechyd (pwysau, maethiad neu weithgarwch corfforol)		McGill et al. 2015 (117); Olstad et al. 2016 (74); Sumar & McClaren, 2011 (159); Thomas et al. 2018 (133);
<b>Cynllunio amgylcheddol a cymdeithasol</b>	Newid agweddau ar ficro-amgylcheddau ffisegol (pensaerniaeth hwb/dewis)		Harbers et al. 2020 (105); Hillier-Brown et al. 2017 (152); Olstad et al. 2016 (74); Schuz et al. 2021 (129)
<b>Darpariaeth gwasanaeth</b>	Ymyriadau hybu iechyd yn yr ysgol ac yn y gymuned ar gyfer plant a phobl ifanc <i>Atal gordewdra, gweithgarwch corfforol, a bwyta'n iach tybaco ac alcohol</i>		Beauchamp et al. 2014 (142); Brown et al. 2019 (144); De Bourdeaudhuij et al. 2011 (147); De Sa & Lock 2008 (148); Hillier-Brown et al. 2014a (108); Love et al. 2019 (114, 115); McGill et al. 2015 (117); Oldroyd et al. 2008 (123); Olstad et al. 2016 (74); Venturelli et al. 2019 (138); Brown et al. 2014b (95); Moore et al. 2015 (120); Tinner et al. 2018 (135)
	Ymyriadau hybu iechyd yn yr ysgol ac yn y gymuned ar gyfer plant a phobl ifanc <i>Hybu iechyd y geg</i>		De Sa & Lock 2008 (148); Shen et al. 2021 (130)
	Ymyriadau hybu iechyd yn yr ysgol ac yn y gymuned ar gyfer plant a phobl ifanc <i>Atal anafiadau anfwriadol</i>		Dowswell & Towner 2002 (102); Kendrick et al. 2008 (111); Kendrick et al. 2012 (156); Pearson et al. 2012 (126)

Maes gweithredu polisi	Tystiolaeth gan		Tystiolaeth ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol
	Adolygiadau ymbarél	Adolygiadau systematig	
Ymyriadau hybu iechyd yn y gymuned ar gyfer oedolion/y boblogaeth gyffredinol		Baker et al. 2015 (141); Beauchamp et al. 2014 (142); Hillier-Brown et al. 2014b (109); McGill et al. 2015 (117); Brown et al. 2014c (96); Hill et al. 2014 (107)	Effeithiau cymysg neu ddim effeithiau ar degwch iechyd. Gall ymyriadau colli pwysau yn y gymuned ac ymyriadau newid ymddygiad gael effeithiau cadarnhaol ar boblogaethau a dargedwyd.
Hybu iechyd yn y gweithle		Beauchamp et al. 2014 (142); Brown et al. 2014c (96); Cairns et al. 2015b (100); Hillier-Brown et al. 2014b (109); McGill et al. 2015 (117); Van De Ven et al. 2020 (137)	Effeithiau cadarnhaol ar degwch iechyd ar draws ymddygiadau.
Atal eilaidd <i>Cymorth rhoi'r gorau i smygu (cymorth ar lefel unigolion a phoblogaeth)</i>		Beauchamp et al. 2010 (91); Brown et al. 2014a (94); Brown et al. 2014b (95); Brown et al. 2014c (96); Chamberlain et al 2017 (145); Hill et al. 2014 (107); Kock et al. 2019 (112); Smith et al. 2020 (131)	Mae cymorth rhoi'r gorau iddi ar lefel y boblogaeth yn cael effeithiau cadarnhaol ar degwch iechyd. Gall cymorth rhoi'r gorau iddi ar lefel unigol gael effeithiau cadarnhaol ar boblogaethau a dargedwyd.
Ymyriadau lefel unigol yn targedu pwysau, maeth a gweithgarwch corfforol		Attwood et al. 2016 (88); Beauchamp et al. 2014 (142); Brown et al. 2019 (144); Hillier-Brown et al. 2014a (108); Hillier-Brown et al. 2014b (109); Lehne & Bolte 2017 (113); McGill et al. 2015 (117); Oldroyd et al. 2008 (123); Venturelli et al. 2019 (138)	Gall rhaglenni colli pwysau wedi'u teilwra a ddarperir gan ofal sylfaenol gael effeithiau cadarnhaol ar y boblogaeth a dargedwyd. Mae ymyriadau cwnsela dietegol yn cael effeithiau negyddol ar degwch iechyd.
Cynyddu nifer y bobl sy'n derbyn/mynychu gwasanaeth		Crocker-Buque 2017 (146); Machado et al. 2021 (116); Spadea et al. 2010 (132)	Gall ymyriadau ar gyfer mynychu sgrinio cancer ac imiwneiddio plant gael effeithiau cadarnhaol ar boblogaethau a dargedwyd.
Rheoli cyflyrau cronig		Hardman et al., 2020 (106); Turnbull et al., 2020 (136)	Effeithiau aneglur/amhendant ar degwch iechyd.

## 6 Trafodaeth

Nod yr adolygiad hwn oedd rhoi trosolwg o'r dystiolaeth lefel adolygiad sydd ar gael i arwain camau gweithredu ar leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd. Nodwyd 17 o adolygiadau ymbarél, 116 o adolygiadau systematig a 15 math arall o adolygiadau a oedd â ffocws tegwch ac a gyhoeddwyd ers 2000. Ein prif nod oedd mapio ac archwilio'r dystiolaeth ar gyfer effeithiau ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol. Cafodd deuddeg adolygiad ymbarél a 54 adolygiad eu categoreiddio fel rhai oedd yn archwilio penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd. Cafodd wyth adolygiad ymbarél a 79 adolygiad eu categoreiddio fel rhai a oedd yn archwilio penderfynyddion ymddygiadol iechyd.

### Pa dystiolaeth sydd ar gael am effeithiau gwahaniaethol ymyriadau, rhaglenni a pholisïau iechyd y cyhoedd ar draws grwpiau economaidd-gymdeithasol?

